ARITHMETIC,

NEU

RIFYDDEG.

Yn gosod allan, sylfaennau ac ymarferiad RHIFYDDIAETH yn eglur, mewn amryw gangheneau; a mesuriaeth yn helaeth: wrth y *Llioſogiaid Deuddegawl*, y *Degrannau*, a'r *Sliding Rule*. Gyd a *Darluniadau*, ac addysgiadau cymmwys i'r unrhyw.

YR AIL ARGRAPHIAD

GAN JOHN ROBERTS.

At ba un, yr anghwanegwyd amryw o *Dablau* buddiol, and a Set of *Tables* to calculate the Moon's Full and Change for ever, &c.

ARGRAPHWYD TROS Y CYHOEDDWR.

1796.



Y BARLLEG

I GYMRO un iaith,

YR wyf yn anfon i ti ychydig o'r hen Gelfyddyd ſef. Llaw forwyn pob celfyddyd, y mae yn anghenrheidiol i bawb wrth eu gwaith fod yn gyfarwydd. Ond y mae Duw wedi cyfrannu i'r rhan fwyaf, ddigon drin eu hachoſion heb Ddyſgeidiaeth. Yr oedd Rhifyddiaeth yn hylaw iawn yn mhlith y *Cymry gynt* : yr hyn a ymddengus wrth eu gwaith yn ddiwyd eu Miſoedd au Blynyddoedd ; mor gymmwys a'r pryd preſennol ; oedran y *Patriarciaid* ſy'n tyſtio i'r Bu'r *Hebreaid* a'r *Groegiaid* yn hir yn rhifo byſedd, ffa, cerrig &c Eithr pwy a'i rhoddes gyntaf nid oes amlygrwydd, Dywedir ei dderbyn gan *Bethegoras*. Dywedodd *Brutus*, Pod y *Caerdroya* yn ei medru, a thebyg iddynt ddwyn Pwys gyd â hwynt yma. Ynghylch 1200 yr *Uladingwyr* au llyfran Rhifyddiaeth ; ac yn mhen mlynedd dechreuodd y *Saeſon*, a'r *Cymry* hefyd wneuthur yr un rhyw, canys dywaid Hanelion eu bod yn ddoethion, ac yn medry pob celfyddyd.

Eithr rhyfeloedd a wnaeth iddynt anghofio pob peth a wnai lês iddynt. Dywedir i *Bleddyn* Tywyſog Cymry godi *Nghaerleon ar wyſg* yſgol i ddyſgu'r celfyddydau 1060. Pa hyd y parhaodd nid oes amlygrwydd, ni bu ef yn teyrnaſu onid 12 mlynedd, Dywedir fod Yſgolheigion ymadel, Rhai i *Gaerfyrddin*, rhai i *Fenai*, a rhai i *ſon*. Fe welodd *John Rhyddderch* dri o Gopiau Rhifyddiaeth: ac efe a Argraphodd Bapurlen ſechan o'r Pedair Rheol gyntaf.

Gan mae dyma yn ail waith yr ymddangoſodd y cyſtryw yn yr Oes hon, Nid wyf yn diſgwyl

dwl

dwl di ynigais am ddyſgu) ond anair, ond yn ol yr hen Ddihareb, *Nid ar unwaith y gwnaed Rhyſain*, Felly nid wyf yn meddwl fod y Llyfr hwn heb lawer o feiau (er i mi wneuthur fy ngoreu) Rhwng fy myſgrellni, a bod yr Argraphwyr, heb fedru gair o Gymraeg, ond gan appelio at y Rhai a welodd yr hen Lyfrau *Arithmeticiau*, cyn *Hodders*, *Cockers*, *Ayres*, *&c.* (yr rhai a ragorodd ar bawb o'r blaen) Felly y mae hwn yn rhagori yn ol ei faintioli a'i bris, yn rhagori ar un a ymddanghoſodd erioed yn Saiſneg.

Myfi a 'chwanegais at yr Argraphiad hwn, amryw o DABLAU buddiol; heblaw y Tabl cyffredinol, tros byth. Gorfu arnaf addel y TABLAU i gael Newid a'r Llawn Lleuadau yn Saiſneg, oblegid i mi farnu fod y geiriau mor ddealladwy, a phe buaſwn yn ceiſio eu cyfieithu hwynt: gadewais hefyd (weithiau) Nodau Punoedd, fylltau &c. yn Saiſneg.

Dichon Rhieni wybod, pa faint y mae'r plant yn ei ddyſgu mewn *Yſgolion*; ac adgofio i eraill yr hyn a ollyngafant yn angof, ac annog y lleill i ddyſgu.

Myfi a ddechreuais yn *Nhabl* Rhifyddiaeth, yr hwn a roddais, i lawr hyd Naw Rhifnod. Am y Rheolau, ni chefais, gwbl foddlondeb, am eu henwau, (ond darfu i mi roddi, yr Enwau *Saeſneg* iddynt ar frig y naill du Dalen, hyd ddiwedd y Llyfr) Os digwydd i mi neu ryw un arall, gael, enwau gwell, gellir eu newid yn yr Argraphiad neſaf; Nid wyf yn barnu, mae gwell yw cymmeryd y Llyfr o'i gwrr, ond, ar ol dyſgu *Cyſſyltiad* Rhifedi Cyfan, myned ymlaen i *Lluhâd* Rhifedi Cyfan, ac ym mlaen, i'r *Lliofogiad* Rhifedi Cyfan; ac oddyno i'r *Cyfraniad*, wedi dyſgu hynny dychwelyd yn ol i'r *Lluhâd* a *Lliofogiad*, Rhifedi amrywiol: Myfi a fum yn faith yn *Lliofogiad* Troedfeddau a Modfeddau, am mae wrtho ef, y meſurir yn gyffredin y rhan fwyaf o bethau: Y *Degrannau*, Gwreiddiau, a Chyflawnochrau Yſgwarau, a roddais ar lawr. Gyd â ychydig o Hyfforddiadau i wneuthur y Rheolau cyffredin a'r y *Degrannau*, ac wrth SLIDING RULE. Ni ddarfu i mi ganlyn trefn [illegible] ond y rhai y cymmerais fwyaf o honynt yw [illegible]*ning*, a'r *Hawney*. Ni ddarfu

ddarfu i mi roddi llawer o addyſg i wneuthur ſwmau yn y MESURIADAU, am fy mod yn meddwl, na ryſyga neb fyned iddynt, heb ddyſgu y Rheolau blaenorol: Ac ymhellach er mwyn, y rhai na ddyſgant, Rifyddeg cyffredin, na'r *Degrannau*, Rhoddais Reolau, i feſur wrth y SLIDING RULE; I ddibenu gallaf, ddywedyd am dano (er gwaeled yw y Llyfr) nad oes mo'i gyffelyb yn yr Iaith *Gymraig*.

Wyf eich ewyllyſiwr da

JOHN ROBERTS.

CAERGYBI
Rhag. 1, 1796.

1791
1796
95

TAFLEN O'R PETHAU MURAF HYNOD, A PHA DU DALEN Y CAIR HWYNT, YN Y LLYFR HWN.

TABL Rhifyddiaeth, Numeration 2
Cyſsylltiad Rhifedi cyfan, Addition of whole Numbers 4
Lleihad Rhifedi cyfan, Subtraction 20
Lliofogiad, Multiplication 28
Cyfranniad o bob math, Diviſion of all Kinds 36
Dadchweliad, Reduction 47
Rheol Euraid, Golden Rule or Rule of three 55
Rheol Tri anghyfeiriol, Rule of three Inverſe 61
Rheol Ymarferiad, Practice 64
Llog Arian, Intereſt 70
Lliofogiad Troedfeddau &c. Multiplication of Feet &c. 72
Dadchweliad Degrannau, Subtraction of Decimals 81
Tarddiad o wreiddin yſgwar, Extraction of Square Root 82
——— *Cyfiewn ochr* ———, ——— *Cube Root* 87
Am y Rheden Feſuraidd, Sliding Rule 91
Meſwriad Arwynebiad, Superfices of all Kinds, 95
Meſuriad coed, Timber Meaſure 118
Meſuriad Lleſtri, of Gauging 123

Meſuriad

Meſuriad Llongau, Ship's Gauging 129
Y Cylchau cyffredinol, ſolar and lunar Circles 131
Tablau i gael yr unrhyw tros byth 136
I gael Dydd o'r Mis, to find the Day of the Month 139
——. *Cauliau ſymmudol*——*Moveable Feaſts* 140
Cyfnewid aur ac arian, Lloegr, a'r Iwerddon, Exchange 142
Calandar tros byth, Perpetual Calendar 145
Tablau Hanner Dyddiol Cylchau yr Haul a'r Lleuad; (Semi-diurnal Arcs) 165 168
A Sett of Tables to calculate the Moon's Full and Change to the Hours and Minutes, for ever
A Noteable Table of Time.

Nodau ai Harwyddocad, ſy'n Llyfr hwn.

\+ { Hwn elwir *Cyſſylltydd* mae yn dangos fod y Rhifnodau y byddo rhwngddynt, yw Cyſſylltu, megis 5 + 6 + 4 yw 15.

— { Hwn elwir *Lleihedydd*, ſy'n dangos fod y Rhif canlynol yw dynnu allan o'r blaenaf, megis 9—4. (ſef 4 yw dynnu o'r 9.) mae 5.

= { Hwn elwir *Gwaſtadydd* mae'n dangos fod y naill Rifedi o'r un faintioli au gilydd; megis 4 + 4 = 2 + 6.

× { Hwn elwir *Lliofydd*, ſy'n dangos fod Rhifnodau oi ddau du, yw Lliofogi ynghyd, megis 6X8 yw 48.

÷ { Hwn elwir *Cyfrannydd* ſy'n dangos fod y Cyntaf yw Gyfrannu âr Ail, megis 32÷ 4.

Dôs ddifrâd *Gennad*, i ganol—*Cymru*,
Cai *amryw* i'th canmol;
Am *eraill* nag ymorol,
O'th ran *Di*, na throi yn d'ôl.

Heb law Beiau llythyrennol, y mae rhai Rhifnodau ſeilly. Dalen 7 llin 35. yn lle 856 Dar. 855. D. 108. ll. 17 dileuwch y 10 Cyntaf. D. 123. ll. 29 yn lle Barg Dar. Brâs. D. 133. ll. 19. yn lle Rhif Dar. Prif. D. 138. ll. 13. yn lle Rhif Dar. Prif. Cywiliaed y neb di caro ef.

ARITHMETIC,

NEU

RIFIDDEG.

Yn gosod allan Sylfaennau ac Ymarferiad, Rhifyddiaeth yn eglur, mewn amryw o Ganghennau, &c.

DOSBARTH I.

RHIFYDDIAETH yw 'r Gelfyddyd o Ddarllain neu yscrifennu i'w casglu yn un Swm; i'r diben hwnnw deliwch sylw, fod pob Rhifedi yn cael eu gosod allan a'u hadnabod wrth y Deg Rhifnod (Figure) canlynol.

Un,	Dau,	Tri,	Pedwar,	Pump,
1,	2,	3,	4,	5,
Chwech,	Saith,	Wyth,	Naw,	Gwagnod
6,	7,	8,	9,	0.

Y Naw cyntaf, a elwir, Rhifnodau Arwyddoccaol o ran, eu gwahanu, oddiwrth y Gwagnod olaf, yr hon ar ei phen ei hun, neu ar y llaw aswy i'r Rhifnodau, ni 'chwanega ddim; ond ar y llaw Ddeheu, neu yn y canol, y mae hi'n mawrhau y Rhifnodau yn ol eu lleoedd. Pa un bynnag o'r Naw uchod a saif ar ei ben ei hun, y mae yn anghyfnewidiol, ond pan Gyfllylltir un arall, neu wagnod, ar y llaw Ddeheu iddo y mae yn gynhifer o Ddegau; os cyfllylltir atto Ddau rhaid ei fod yn Gantoedd; Megis 5 ar ei ben ei hun nid yw ond pump, ond fel hyn 50 mae yn bump o ddegau, neu ddeg a deugain, ac os fel hyn 500 y mae yn Bump o Gantoedd. Felly pob Rhifnod neu wagnod a roddir [illegible] Ddeheu iddynt, sy'n gwneuthur y naill fel llall yn ny Ddeg cymmaint.

Er nifwyn deall yn well yr addysg uchod, [illegible] angenrheidiol bod yn hyddysg ar y Dafleni [illegible]

Y DAFLEN RIFYDDIAETH.

Cantoedd o Filiwnau.	Degau o Filiwnau.	Miliwnau.	Cantoedd o filoedd.	Degau o filoedd.	Miloedd.	Cantoedd.	Degau.	Unau.	*Darllenwch fel hyn.*
								1	Un.
							1	2	Deuddeg.
						1	2	3	Cant a Thriarhugain.
					1	2	3	4	1 Mil. 2 Gant a 34.
					1	2	3	4	5	12 Mil. 3 Chant a 45.
				1	2	3	4	5	6	123 o Fil. 4 C. ac. 56.
		1	2	3	4	5	6	7	1 Miliwn 234 M. 5 C. a 67.
	1	2	3	4	5	6	7	8	12 Miliwn 345 M. 6 C. a 78.
1	2	3	4	5	6	7	8	9	123 Miliwn 456 M. 7 C. a 89.

Gyferbyn a phob Rhifedi tu ag i fynu, chwi a gewch gyflawn eiriau, Pa faint y mae pob un o'r Rhifnodau yn ei arwyddoccau yn ol eu Lleoedd, megis Unau, Degau, Cantoedd, &c. Y cyfryw eiriau fydd raid i'r fawl a dderbynio addyfg, eu dyfgu, cyn y gallo yn iawn, Ddarllain nac Yfcrifennu un math o Rifedi.

Gwelwch hefyd ar y Llaw Ddeheu i'r *Tabl* y modd i'w Darllain yn gywir, gyferbyn a phob un o'r Rhifnodau, megis, un gyferbyn ag 1. Deuddeg ar gyfer 12. Cant a 23 ar gyfer 123. Un Mil. 2 Gant a 34 ar gyfer 1234 Deuddeg Mil, Tri Chant a phump a Deugain ar gyfer 12345, un Miliwn Dau gant a phedwar ar ddeg ar hugain o filoedd Pum Cant a Saith a Thriugain, &c.

Y mae'n arferol mewn Rhifedi mawr, wahanu pob Tri rhifnod oddiwrth y llaw ddeheu tu ar afwy am eu bod yn efmwythach eu traethu hwy allan fel hyn. 123, 456, 789. Fel y gallo fod yn hylaw adnabod eu lleoedd, Dechreuwch rifo oddiwrth llaw ddeheu tua'r afwy gan ddywedyd * *Unau, Degau, Cantoedd, Miloedd* & Felly darllenwch y ffuguran olaf fel hyn. Un Cant a Thriarhugain o Filiwnau, Pedwar Cant a unarbymtheg o Filoedd, Saith Gant a Naw a Phedwar ugain.

* Yr achos, pa hane yr ydys dechreu Rhifo y Rhifnodau oddiwrth y llaw Ddeheu tua afwy (tra'n dobygol iawn) oblegid mai'r *Caldeaid*, neu'r *Hebreaid*, a'i dechreuodd, canys y maent hwy etto, yn darllain eu llyfrau, oddiwrth y llaw ddeheu tua'r afwy.

1. Pa faint yw [illegible]

Att. Wrth gyfl[illegible] heu iddo fel hyn 40000; y mae'n [illegible]

2. Pa faint ydyw 5 yn y pumed [illegible]

Att. Wrth gyfiylltu, pedair [illegible] Deheu iddo fel hyn 50000; [illegible] filoedd.

3. Pa faint yw [illegible] y Seithfed fe?

Att. Wrth [illegible] blaen fel hyn, 7000000, y mae yn Saith o Filiwnau.

Llythyrennau Rhifedi yr hen *Rhufeiniaid*,

I.	V.	X.	L.	C.	D.	M.
1.	5.	10.	50.	100.	500.	1000.

Pan fyddo y llythyrennau ar y llaw aſwy, y maent yn eu lleihau y lleill; ond pan f'ont y tu arall y maent yn eu chwanegu, megis iſod.

IV.	IX.	XL.	XC.	CD.	CM.
4.	9.	40.	90.	400.	900.
VI.	XI.	LX.	CX.	DC.	MC.
6.	11.	60.	110.	600.	1100.

Arferir, goſod Llinell ddu uwch ben unrhyw Rifedi llai na Mil, i'w harwyddoccau hwy, yn gynhwſed o Filoedd, Megis iſod,

$\overline{LX.}$	$\overline{C.}$	$\overline{M.}$	$\overline{LXX.}$	$\overline{CX.}$
60000.	100000.	1000000.	70000.	110000.
$\overline{MD.}$	$\overline{MDC.}$	$\overline{DCLXXIV.}$	$\overline{LXXXIV.}$	
1500000.	1600000.	674084.	80004.	

N. B. Os bydd Naw o Rifnodau Rhifyddiaeth yn rhy fychain i ddigoni meddwl fryd rhai, hwy a allant gael deg ar hugain o honynt, ac enwau arwyddoccaol arnynt, mewn, Rhifyddegau Sailnig; y mae rhai, yn ceiſio rhoddi rhyw fath o enwau, ar 60 o Rifnodau yngh[illegible], Eithr y mae Naw'n ddigonol.

CYSSYLLTIAD

YRHEOL hon ſy'n addyſgu, Pa ſodd i Gyſſylltu ynghyd, amryw Rifedi, yn un Swm.

Mae weithiau unigol Enwau, neu amrywiol.

Cyſſylltiad unigol Enw yw, pan fyddo yr holl Rifnodau yn un Rhywogaeth, megis *Punoedd*, *Milldiroedd*, *Llathenau*, neu *Ddefaid*, &c.

Cyſſylltiad Amrywiol Enwau, ydyw, pan fyddo y Colofnau, yn llawer o Rywogaethau, megis *Punoedd*, *Sylltau Ceiniogau* a *Ffyrlingau*; neu *Dunnellau*, *Cantoedd*, *Pwyſau*, *Wrſau*, &c.

CYFARWYDDYD I. Pob Rhifedi fyddo i'w Cyſſylltu rhaid eu rhoi ar lawr yn drefnus, tan eu gilydd; (ni waeth pa un a'i y mwyaf a'i y lleiaf fyddo yn uchaf) ſef y gallo unau ſod tan unau, Degau, tan Ddegau Cantoedd, tan Gantoedd, &c. Dechreuwch yn waſtad, Rifo yn y cwrr iſaf ar y Llaw Ddehau, tu ag i ſynu. Gwelwch y Siampl ſy'n canlyn.

Megis ped faech ar fedr Cyſſylltu, 136 Troedfedd, 410 Troedfedd, a 4431, ynghyd, Rhaid eu goſod ar lawr yn ol y Cyfarwyddyd uchod fel hyn.

Troed.		Troed.
4431	neu fel hyn	136
410		410
136		4431
4977		4977

Gwedi Rhoddi y Rhifiau hyn ar lawr, mi ddechreuaf, yn y cwrr iſaf, ar y Llaw Ddehau i'r Swm gyntaf, ar ol tynu lein oddi tanynt, gan ddywedyd, 6 ac o yw 6 ac 1 yw 7. Yr hwn a roddaf tan yr unau, a than y lein hefyd; Ac yna âf at y Golofn neſaf ſef y Degau, gan ddywedyd 3 ac 1 yw 4, a 3 a wna 7; yr hwn a roddaf ar lawr tan y Degau: Bellach âf at Golofn y Cantoedd a dywedaf 1 a 4 yw 5 a 4 a wna 9 yr hwn a roſ ar lawr tan y Cantoedd: Yn olaf âf at Golofn y Miloedd ac yno ni chaf, ond 4 yr hwn hefyd a roddaf tan y lein yn lle y Miloedd: Felly y Tri Rhifedi gwedi eu Cyſſylltu yw 4977. Gwelwch uchod.

Y Llwyth

Y Llwyth arall ellwch ei Gyfſylltu yr un modd, ond yn unig, carrio y Degau; Rhag i mi roddi gormod baich arnat, cymmer ditheu ofal, am gofio yr hyn a ddywedir unwaith: Ni wnaf ond dodi y Gaſgl tanynt, er mwyn i ti dreio dy ſcil dy hunan, hyd oni chyduno't a'r Gaſgl ſydd yma.

Siamplau.

P.		P.
1736		1736
0017		17
0170	neu fel hyn	170
7031		7031
0078		78
0023		23
9055	Eu caſgl	9055

Cyfſylltwch 78906, 43642, 83210, 78640, 16173, 94150, 51406, ac 87065, ynghyd, Gofodwch hwynt yn drefnus, unau tan unau; Degau tan ddegau, Cewch, 533192, yn un ſwm.

Y mae rhai yn gadel y Gwagnodau heibio fel y Gwelwch ar y llaw Ddeheu; am nad ydynt yn mawrhau dim ar y Cyfri, pan ſafant ar y llaw aſwy i'r Rhifnodau; etto gwell i'r anyſgedig ei harfer er mwyn deall yn well le y Rhifnodau eraill.

Nid oes dim gwahaniaeth yngoſodiad y ddwy ſwm uchod, na'i gwneuthuriad chwaith, mi a'u goſodai yn y ddwy ffordd ar lawr, er mwyn gweled y Gwahaniaeth rhyngthynt.

Cyf. II. Chwi a ellwch er mwyn eſmwythder, Roi, Diweddnod ar gyfer pob Deg; a chario y Gweddill tuag i fynu, at y Rhifnod neſaf, a'r hyn a fyddo uwch law deg yn y pen uchaf iw roddi lawr: Ac yna cyfri y Diweddnodau i gael gwybod, pa faint iw garrio at y neſaf, ac yn y golofn olaf rhowch y cwbl ar lawr. Er nad yw hon ffordd hardd na chanmoladwy, mi a roddaf un Siampl o honi.

Gwedi eu gosod ar lawr megis y Gwelwch ar ymyl y ddalen; Myfi a ddechreuaf yn ol yr arfer gan ddywedyd 7 a 4 yw 11, Rhoddaf y nôd ar gyfer y 4, tros y Deg a charriaf yr 1, at y 3 i wneud 4, a 7 yw 11, Rhof y nôd etto i lawr, ac 1 tan y lein; yna âf i'r golofn nesaf, gan garrio y ddau nod at yr 8 i wneud 10, Rhof y nôd wrth yr 8, gan ddywedyd 6 a 5 yw 11, rhof y nôd ar lawr, a charriaf yr 1 at yr 8 i wneuthur 9 yr hwn a ddodaf tan y Lein; âf ymlaen, gan garrio 2 a 2 yw 4 a 4 yw 8, ac 8 yw 16 rhof y 6 i lawr; ac âf ymlaen gan ddywedyd 1 a 7 yw 8 a 2 yw 10 rhof nôd i lawr, a dywedaf 6 a 5 yw 11, rhof yr 1 tan y lein, yna Rhof y 2 nôd ar lawr gwelwch uchod.

	P.	P.	P.
	13705	3704	94612
	95648	4732	41346
	78073	8650	13627
	60127	7063	86289
Casgl	247553	24149	235874

	P.
	5. 0 8 7.
	6 8. 5. 3
	2. 4 6 4.
	7 2 8. 7
	21691

Y moddion y Profir y Rheol hon.

1. Cyssylltu oddi fynu tu ag i wared, yr un modd ac y gwnaed tuag i fynu, os bydd y gasgl yr un Rhifno dan bydd tebyg o fod yn gywir, ac oni bydd rhaid myned trosti nes y cydunant.

2. Eraill sydd yn arferu tynnu llinnell ddu, tan y lein uchaf, ar ol eu Cyssylltu unwaith; yna eu Cyssylltu hyd at honno, a'i chydio gyd a'r uchaf, os daw yn un a'r gyntaf, mae'n gywir: Oni bydd rhaid ei threio eilwaith: Nid ydyw'n arferol gan y Dysgedigion y ffordd hon, ond yr *Ysgol Feistri*, er mwyn gwneuthur y Plant, yn fwy hylithr, sy'n ei harfer.

3. Y mae etto ffordd ymysg Ysgolheigion, sef, dechreu Cyssylltu y swm ar y llaw aswy tu ag i wared, gan nod y Rhifnod olaf, tan y Casgl, ac yn y diwedd eu Cyssylltu ynghyd.

4. Y mae

4 Y mae modd arall, i brofi a fydd y gwaith yn gywir, ſef, Cyſſylltu Rhifnodau y llinnell uchaf gan fwrw ymaith y 9iau ymhob llinnell; a rhoddi'r gweddill ar eu cyfer: Ceſglwch hwy ynghyd, gan adel y 9iau, ac os bydd y caſgliad yr un modd y mae'n gywir, Gwelwch ſiamplau yn y tair ffordd.

54396	12846	76543
16275	61725	12107
37017	86289	50761
81450	12431	67516
65389	65170	46170
254527	238461	253097
200131	225615	176554
254527	238461	253097

Er mwyn eglurō ymhellach mi roſ ſwm fechan, yn ymyl y ddalen er deall yn well, yr hon a wnaf unwaith megis arferol. Yna mi ddechreuaf yn y Pen uchaf, ar y llaw aſwy tu ag i wared a dywedyd: 4 a 3 yw 7 a 4 yw 11 ac 1 yw 12, yr rhain a rhoddaf ar lawr tan y Caſgledig; yna meddaf 5 ac 1 yw 6 a 5 yw 11 yr rhain a rhof i lawr hefyd ynà; meddaf 6 a 6 yw 12 rhof hwytheu i lawr hefyd. Bellach mi a 'i Cyſſylltaf oll ynghyd, a deallaf ei bod yn gywir. Cofiwch roi Degau tan unau.

450	
316	
450	
106	
1322	
12	
11	
12	
1322	

3782
5766
8756
18303
uwch 9iau

2. Dechreuaf yn y lein uchaf, gan ddywedyd, 3 a 7 yw 10, ac 8 yw 18 a 7 2 yw 20; bwriaf y ddau 9 ymaith, a rhof y 2 ar ei cyfer; Gwnaf yr un modd yr ail a'r drydydd; cyſſylltaf hwy ynghyd yn 15 ſef 6 uwch 9, yna âf at y Caſgl a chaf 6 uwch 9 hefyd.

Mi roddais y Tair ffordd hon i lawr fel y gellit gymeryd, yr un a welit ti fwyaf cymwys, o'r tair gaſglais tan fyrddau y Dyſgedigion, fel y cait yn ôl daith dy hun, beth o'u helaethrwydd hwythau.

Mewn

Mewn Cyssylltiad arian o amryw enwau, Rhaid sylwi, Pa faint o'r Enw lleiaf a wna un syddo mwy: megis pa sawl ffyrling a wna Geiniog, a pha sawl Ceiniog a wna swllt, a pha sawl swllt a wna Bunt: gan hynny, myfi roddaf, amryw DABLAU, am *Arian. Pwysau* a *Mesurau*, &c. o flaen y *Siamplau*, am sod yn rhaid eu gwybod hwynt yn gyntaf.

4 ffyrlling 12 Ceiniog 20 Swllt	a wna	Geiniog, Swllt. Bunt.	d. *denarius.* s. *solidus.* l. *libra.*

Gan hynny.

P.	s.	c.	qr.
1	20	240	960
	1	12	48

Y llythyrenau ar geiriau, sydd y tu deheu i'r Tabl ydynt eiriau, *Lladin*, am Geiniog, Swllt a phunt, a'r llythyrenau uchod, sydd yn sefyll yn eu lle, oddieithr y *qr* sy uwch ben y ffyrlingau y rhai y mae Gorchwylwyr yn eu nodi, sel hyn ¼ *ffyrling*, ½ *Dimmeu*, ¾ *Tair ffyrling*.

Cyf. III. Rhaid, bob amser, osod Arian o amryw Enwau yn union tan ei gilydd, i'w Cyssylltu ynghyd, yna bwriadu, Pa faint a wna un o'r Enw nesaf iddynt, a rhoi y gweddill ar lawr, megis o'r blaen, yr hyn a ddeallir yn well wrth y Siampl ganlynol.

Y mae rhain yn neidio, oddiyma, i Reol y *Lleihâad*, a'r *Cyfraniad*, Rhifedi, cyfan am sod yn anhawdd i blant sedru gwybod, pan so lawer o Geiniogau, pa faint o Syllltau ydynt, myfi roddaf Dabl yn gynhorthwy i'r sawl a ddeirbynio addysg, ei gofio, neu droi atto yn y llyfr.

Y Dafle'n Geinhiogau.

c.		s.	c.	c.		s.	c.
20	yw	1	8	70	yw	5	10
30		2	6	80		6	8
40		3	4	90		7	6
50		4	2	100		8	4
60		5	0	110		9	2

Y Tabl uchod a ddarllenir, sel hyn, 20d. yw un [illegible] geiniog, 30d. yw 2s. 6d. &c.

Bydded

Bydded ſy mod yn ddyledwr i A. 35l. 14s. a 6d. i B. 26l. 2. a 10d. i C. 54l. 15s. 5d. ac i D. 10l. 17s. a 9d. Dymunaf wybod, Pa faint ſydd arnaf o Ddyled?

		P.	s.	c.
A.	——	35	14	6
B.	——	26	2	10
C.	——	54	15	5
D.	——	10	17	9
		127	10	6

Gwedi tynnu Lein ddu oddi tanynt, Dechreuaf yn yr Enw lleiaf, gan ddywedyd, 9 a 5 yw 14 a 10 yw 24 a 6 yw 30, yr hyn yn ol y Tabl yw 2 Swllt iw carrio ta y Sylltau, a'r 6 Cheiniog i'w gofod tan y Ceiniogau, megis uchod; yna mi garriaf 2s. at unau, y Sylltau, (gan adel heibio y Degau, hyd oni ddelwyf i'r pen uchaf) gan ddywedyd 2 a 7 yw 9, a 5 yw 14, a 2 yw 16, a 4 yw 20; yna Dychwelaf tu ag i wared, a chaf ynthi Dri o ddegau, iw Cyſſylltu at yr 20, a chaf hwynt yn 50s. yr hyn yw Dwy bunt, a 10s. rhoddaf, y 10s. tan y Sylltau, a charriaf y Punoedd at y Punoedd, (gan gymmeryd un golofn ar unwaith) gan ddywedyd 2 a 4 yw 6 a 6 yw 12, a 5 yw 17. Rhof y 7 ar lawr (megis yn y Rhifedi cyfan) yna âf at y golofn olaf, gan ddywedyd 1 (rwy'n ei garrio) ac 1 yw 2, a 5 yw 7, a 2 yw 9 a 3 yw 12, yr hyn a roddaf ar lawr. Felly Gwelwch, fod ſy holl Ddyled yn 127l. 10s. a 6d.

Siamplau er addyſg.

P.	s.	c.	P.	s.	c.
436	12	07¼	148	15	11½
184	00	10¾	076	12	7¾
768	14	04½	418	00	5¾
564	11	11	324	19	9½
1953	19	09½	968	08	10¼

Mi ddechreuaf yn y ffyrlingau'r ſwm gyntaf, gan ddywedyd 2 a 3 yw 5 ac 1 yw 6, yr hyn yw 2 ffyrling iw gofod i lawr, a charrio un geiniog gan ddywedyd, ac 1 yw 2, a 4 yw 6 &c.

Gan

Gan nad wyf fi yn gweled, yn angenrhaid i mi roddi yr un addyſgiadau, ar lawr, lawer gwaith; na llenwi y llyfr a gormod o ſwmau chwaith: Dymunaf i'r Dyſgwr gymmeryd Rhydd-did ei hunan, i wneuthur ſwmau iw harferu; gan wilio rhoi tan ffyrllingau ſwy na 3; na than y Ceiniogau ſwy nag 11; na than Sylltau ſwy na 19.

Am bwyſau a meſurau hefyd gwnewch yr un modd; rhag i mi ſlino y Deallgar, a gormod o eiriau am yr un pethau.

Yr oedd rhai, yn arferu gynt, (a rhai gwan eu penau yn breſennol) Roddi y Diwedd-nod, (megis yn y Cyf. 3.) am bob 4 yn y ffyrlingau; am bob 12, yn y Ceiniogau, &c. Y ffordd ſy'n ymddangos yn wrthyn; y neb ſy'n Cyſſylltu ſwmau mawrion cymmered y *Cyf.* ſy'n canlyn.

Cyf. IV. Rhoddwch Diiwedd nod, ar gyfer pob 60 yn y Ceiniogau yr hyn yw 5s.; a charrio yn ol hynny at y Sylltau: gan gyfri un ar un waith, am bob Deg carrio un i lein y Degau, a'u cyfrif megis cynhifer o unau ac yn y Pen uchaf, hannerwch hwynt yr hwn hanner, a gerriwch at y Punoedd, os na hannerant rhowch yr 1 od tan Ddegau 'r Sylltau, yr hyn a ddeallwch yn well wrth y Siamplau neſaf.

P.	s.	c.
16	18	10
47	19	4
74	06	0
54	19	7
45	09	8
72	14	5
27	4	0
16	7	9
61	17	8
24	6	1
42	17	5
24	19	2
47	11	5
74	9	6
Swm 632	00	10

P.	s.	c.
310	17	10
192	10	04
721	09	08
640	12	07
72	15	1
300	7	7
177	00	0
370	10	7
107	10	0
040	16	0
100	09	3
821	01	6
312	00	8
71	18	9
4239	19	10

Myſi,

Mynfi a gyſſylltaf y gyntaf gan ddywedyd 6 a 5 yw 11, &c. hyd oni ddelwyf i'r lein uchaf ond un, Rhof y nôd yno ar gyfer y 4 lle y maent y 60, yna mi dynnaf y 10 uchod i lawr tan y lein, gan garrio y 5s. a dywedyd 5 a 9 yw 14, &c. felly yr af, hyd y pen uchaf, yno y maent yn 100 rhof o i lawr tan unau y Sylltau, yna deuaf i wared gan gyſſylltu y Degau at y rhai ſy gennyf yno caf hwy yn 18, hanner yr hyn y 9, rhof o tan ddegau y Sylltau a charriaf y 9 at y Punoedd a dywedyd, 9 a 4 yw 13, &c.

YSiampl arall a wneir yr un ffunud, mi oſodes y Nôd ynddi hithau. Gwell rhoddi y nôdau ar bapur arall.

Cyssylltiad pwysau Troy.

Y Pwyſau lleiaf a arferir yng *Nghymru* yw Gronyn gwenith (gwedi ei ſychu yn dda) o ganol y dywyſan, oddiwrth yr hyn y mae y Tabl hwn yn dyfod.

32 Gronyn gwenith	a wna	24 Gronyn gwneuthurol.
24 Gronyn gwneuthurol		Bwys Ceiniog p. w.
20 Pwys Ceiniog		Wns. oz.
12 Wns		Pwys. lb.

Gan hynny

P.	W.	P.	Gr.
1	12	240	5760
	1	20	480
		1	24

Y Pwyſau hyn a waſanaetha i bwyſo, *Bara, Perlau, Tlyſau, Aur, Arian, Enaint, Dyfroedd Poethion*, &c. Pint o Win, neu ddw'r a wna un Pwys union.

Pwyſau Aur ac Arian.

Pwys Aur Bathedig.			Pwys Arian Bathedig.		
	p.	*c. Gron.*			
Guinea	5	9h.	Coron	19.	8h.
Hanner	2	16	Hanner	9.	16.
Chwarter	1	8	Swllt	3.	21.
			Chwech	1.	22h.

Yn

Yn ol yr Act bresennol y mae Guinea'n gymmeradwy am mantola 5 pwys ceiniog ac 8 Gronyn. Hanner yw hyn.

Gwerth hen Aur.	l.	s.	d.
Pwys sy' werth	48	02	0
Wns	4	00	0
Pwys Ceiniog	0	4	0
Gronyn	0	00	2

Gwerth hen Arian.	l.	s.	d.
Pwys sy' werth	3	03	0
Wns	0	05	2
Pwys Ceiniog	0	00	$3\frac{1}{10}$
Gronyn	Dimmeu		

Y Pwysau hyn yn ol (tyb llawer) a ddaeth gyd â ein henafiad gynt, o *Gaer Droya* i *Loegr*, ac oblegid eu manylrwydd, a gawsant eu derbyn i bwyso y pethau mwya Gwerthfawr yn y Deyrnas: Er bod yr *Hebreaid*, y *Groegiaid*, ar *Rhufeiniaid* a'u wnsiau; ni wn i am un genedl, yn arfer y Pwysau hyn, ond Trigolion *Lloegr*, a *Chymru*, &c.

Siamplau.

P.	(12) Wns.	(20) Pc.	(24) Gr.
5	10	12	20
5	04	06	13
7	07	07	06
5	04	19	04
4	11	04	14
6	04	07	21
35	06	18	06

P.	(12) Wns.	(20) P.	(24) Gr.
5	10	10	03
4	11	17	00
6	10	01	07
5	06	14	10
4	10	14	01
2	05	04	00
30	07	00	21

Dechreuaf yma yn yr Enw isaf, y Gronynau a'r Swm nesaf i'r llaw aswy, (rhoddaf yr addysg, eglura yr allaf, rhag i'm Darllenydd flino yma) gan ddywedyd 21 a 14 (am ei bod yn anodd i'r anwybodus wybod hynny, gadawaf y Deg heibio) a dywedaf 21 a 4 yw 25 edrychaf i synu a gwelaf mai 24 Gronyn a wna P.c. yna rhof y Diwedd-nôd ar gyfer y 4, gan gofio yr 1 i Gweddill a'r 10 (a adewais heibio) yw 11, a 4 yw 15 a 6 yw 21, a 3 yw 24, rhof y Nôd yno hefyd, [illegible] 10 adewais ac 20 yw 30, sef 6 uwch law P.c. yr [illegible] y lein, ar nôd a'r gyfer yr 20; yna af at yr

yr ail golofn, gan garrio 3 a dywedyd 3 a 7 yw 10, a 4 yw 14, a 9 yw 23, deallaf uchod mae 20 P. c. yw wns rhof y nod wrth y 9, a dywedaf y 3 gweddill a 10 adewais yw 13, a 7 yw 20, Rhof y nôd ynō, a dywedaf 6 a 12 yw 18, am nad ydynt P. c. dodaf hwy tan y lein; ac âf i'r golofn neſaf a dywedaf 2 (rwy'n garrio) a 4 yw 6, a 11 yw 17, yr hyn yw 5 uwch law P. c. rhôf y Nôd ar gyfer 11, gan ddywedyd 5 (rwy'n garrio) a 4 yw 9, a 7 yw 16, ſef 4 uwchlaw pwys, rhof y nôd, gan ddywedyd 4 a 4 yw 8, a 10 yw 18, yr hyn yw 6 yw goſod tan y lein, carriaf y 3 nod i'r golofn neſaf, gan ddywedyd 3 a 6 yw 9, &c. Ar golofn oll yw 35 Gwelwch uchod.

Gadawaf i'm Darllenydd, wneuthur y ſwm arall, yr un modd: y Rhifnodau ſydd wedi ei cau i ſynu, mewn cromfachau; ſy'n dangos, Pa faint o Rifedi, a wna un yn y golofn neſaf.

Cyssylltiad Pwysau Averdupois.

Yr Enw hyn, ſydd Air *Ffrainge-aeg*, yn arwyddocau, Cywir bwys. Wrth hwn y Pwyſir pob math ar *Lyſiau Siopau*, ſydd arferol o golli yn eu pwyſau, megis, *Tobacco, Siwgr, Cig, Caws, Menyn, Haiarn, Pres, Plwm, Sebon, Gwer, Pug, Halen, Cwyr Llin, Cywarch*, &c. A'u Rhannau ydyw.

			A nodir.
4 Chwarter Dram	a wna	Ddram.	Dr.
16 Dram		Wns.	wn.
16 Wns		Bwys.	Pw.
28 Pwys		Chwarter C.	Ch.
4 Chwarter Cant		Gant ſef 112lb.	C.
20 Cant		Dunnell.	T.

Tun.	C.	Ch.	Pw.	Wn.	Dr.
1	20	80	2240	35840	573440
	1	4	112	1792	28672
		1	28	448	7168
			1	16	256

N. B. Fod y Pwys, hwn, yr un faint a [illegible] Pwys Ceiniog, Troy;

Siamplau.

	Tun.	C.	ch.	lb.		T.	C.	ch.	lb.
	74	13	0	15		74	14	1	16
	46	11	1	17		41	6	1	11
	44	9	1	6		24	15	2	7
	74	19	3	16		19	6	3	15
	44	7	0	24		26	14	1	7
	74	14	1	15		14	12	2	15
Caſgl	359	15	1	9		201	10	0	15

Myſi a ddechreuaf, fel arferol gan ddywedyd, 15 a 24 yw 39 (gadawaf y 10 heibio) ſef 1 uwch law qr. C. yna 11 (ſydd gennyf) ac 16 yw 27, ac 6 yw 33, yr hyn yw 5 uwch law qr. C. Yna 5 a 17 yw 22, a 15 yw 37, yr hyn yw 9 yw rhoi ar lawr; (Mi beidiais a rhoi y nôdau, am fy mod yn ewyllyſio i titheu, eu rhoddi yn hytrech ar bapur arall) yna 3 a gariaf ac 1 yw 4, âf ymlaen a dywedaf 3 a 2 yw 5, ſelly 1 yw garrio ac, 1 a wna 2 yw rhoi i lawr, ſelly am y lleill yr un modd.

Cyssylltiad Gwylyb Fesur.

Wrth y Meſur hwn, y Meſurir, *Gwin*, *Bir*, *Cwrw Olew*, *Brandy*, &c. y Meſur lleiaf yw Nogin, oddiwrtho ef y mae y Tabl hwn yn dyfod.

			nodir.
4 Nogin		Bint	P.
2 Bint		Chwart.	ch.
4 Chwart		Galwyn.	G.
8 Galwyn	a wna	Ffircenaid o Gwrw.	Ff.
9 Galwyn		Ffircenaid o Fîr.	Ff.
63 Galwyn		Hogſiad.	H.
4 Hogſiad		Dunnell.	T.

Gan hynny.

T.	H.	G.	ch.	P.	N.
1	4	252	1008	2016	8064
	1	63	252	504	2016
		1	4	8	32
			1	2	8

231, 282, 268 } O fodfeddau, ſydd mewn Pint { Gwin. Bîr. ŷd.

Siamplau

Siamplau am Fesur Gwin.

T.	(4) H.	(63) G.	(8) P.
71	2	19	4
24	1	27	6
12	2	56	4
42	0	37	7
16	3	60	2
167	3	12	7

T.	(4) H.	(63) G.	(8) P.
75	2	24	7
44	1	17	2
27	1	46	6
24	3	19	4
29	1	46	4
201	2	28	7

Cyssylltiad Sych Fesur.

Y Lleſtr lleiaf, yw Pint, (oddiwrtho ef y mae dechreuad, amryw o feſurau i feſur, *Yd*, *Glo*, *Halen*, &c) yn ol y Tabl canlynol.

			nodir.
2 Bint	a wna	Chwart.	ch.
4 Chwart		Galwyn.	G.
2 Galwyn		Peccaid.	P.
4 Peccaid		Bwyſiel.	B.
8 Bwyſiel		Chwarter.	ch.
4 Chwarter		Sialdron.	ſi.

Gan hynny.

Sial.	ch.	Bwy.	Pec.	Gal.	Chw.	P.
1	4	32	128	256	1024	2048
	1	8	32	64	256	512
		1	4	8	32	64
			1	2	8	16
				1	4	8

ch.	B.	P.	G.
24	6	2	1
17	3	2	0
20	7	1	1
15	5	0	1
22	2	1	1
18	4	0	2
119	5	1	0

Sial.	chw.	B.	P.
174	3	6	3
241	1	7	2
296	2	4	3
171	1	5	0
097	0	7	2
471	2	4	3
1453	1	2	1

Cyssylltiad Hyd Fesur.

Y peth lleiaf mewn mesur hir, yw hyd Gronyn haidd, oddiwrth yr hwn y mae y Tabl yn dyfod.

3 Hyd Gronyn haidd	a wna	Fodfedd.
12 Modfedd		Droedfedd.
3 Troedfedd		Lathen.
5½ Llath a hanner		Palaid.
40 Palaid		Ystad.
8 Ystad		Milldir *Seisnig.*
69 Milldir a hanner		Gradd.
360 Gradd		Gylchiad y Mor a'r Tir.

Gan hynny

M.	Yst.	Pa.	Ll.	Tro.	Mod.	G. H.
1	8	320	1760	5280	63360	90080
	1	40	220	660	7920	23760
		1	5½	16½	198	594
			1	3	36	108
				1	12	36
					1	3

N. B. Fod weithiau wrth fesur, gyfrif 5 Troedfedd yn y Llam, a 1056 Llam yn y Filldir.

	M.	Y.	P.		M.	Y.	P.
	24	6	22		37	4	21
	37	5	26		20	3	17
	15	4	34		42	5	19
	74	3	39		31	6	27
	41	7	24		52	4	19
Casgl	194	4	25		185	0	23

Taith diwrnod oedd 37½ o filltiroedd.

Taith diwrnod Sabboth, a gyfrifid o ddau fath, y *Cyntaf* elwir, *Tiberath haaretz.* Yr hyn oedd ychydig flordd: *Gen.* 35 16. Yr *ail*, yr hyn oedd o'r Gwerfyll i'r Babell, fef ychydig lai na Milldir: ond yngwlad *Canaan* yr hyn oedd o'u i'rigfannau i'r Synagogau. *Wilf.*

Mesur

Mesur Arwynebiaid Ysgwar.

144 Modf. Yſgwar	a wna	Droedf. yſgwar.
9 Troedf. ——		Lathen ——
30¼ Llath ——		Balaid ——
40 Palaid ——		Rwd ——
4 Rhwd ——		Acr ——
640 Acr ——		Filldir. ——

272¼ Troedfedd yw Yſtad, o waith Pridd-ſeini.
100 Troedfedd yſgwar, yw yſgwar y Seiri coed &c.

Mesur Eang, neu Gyelawn Ysgwar.

1728 Modf. gyflawn	a wna	Droedf. gyflawn
27 Troedfedd —		Lathen ——
40 Troedf. o bren crwn / Neu / 50 Troedf. o bren yſgw.		Dunnell.

Llathen Gyflawn o Ddaear, a gyfrifir yn Dunnell, neu lwyth.

Pwysau yr Apothecari.

Gr.	20 Gronyn	a wna	Scruple.
Sc.	3 Scruple		Ddram.
dr.	8 Dram		Wns.
oz.	12 Wns		Bwys. lb.

Er bod yr Apothecariaid, yn trefnu eu cyſſyrlau wrth y pwyſau hyn; Pwyſau Averdupois, y maent yn prynu a gwerthu.

lb.	oz.	dr.	ſc.	gr.
48	7	1	0	14
74	5	5	2	10
64	10	7	1	11
17	8	1	3	6
34	9	6	1	9
240	5	7	0	10

Siamplau

lb.	oz.	dr.	ſc.	gr.
60	3	2	0	10
48	10	6	0	14
34	8	2	1	15
18	11	2	2	11
160	7	1	2	15
35	2	5	1	7
358	7	7	0	12

Am Fesur Tir.

5 Llath a hanner
40 Palaid
4 Rhwd
} a wna {
Balaid.
Rwd.
Acr.

Eithr y ffordd oreu i feſur Tir, yw, Cadwyn o 4 Palaid, neu 66 Troedfedd o hyd: wedi eu rhannu yn 100 o Rannau, elwir Llingiau, yr hon a drefnir fel y canlyn.

25 Llingiau
40 Palaid
4 Rhwd
} a wna {
Balaid,
Rwd.
Acr.

Mewn Acr o Dir y mae
160 Palaid neu Rwd yſg.
4840 Llathenau. —
43560 Troedfeddau. —
6272640 Modfeddau. —

Cyssylltiad Amser.

Yr Enw lleiaf ar amſer, elwir, Moment, neu Ailiaid yn gyffredinol, oddiwrth yr hyn y mae blynyddoedd yn deilliaw.

60 Ailiaid
60 Munud
24 Awr
7 Diwrnod
4 Wythnos
13 Mis 1 D. 6 A.
} a wna {
1 Munud.
1 Awr.
1 Diwrnod natturiol.
1 Wythnos.
1 Mis.
1 Flwyddyn.

Gan hynny

Bl.	Mis.	Wyth.	Diwr.	Awr.	Mun.
1	13	52	365	8760	525600
	1	4	28	672	40320
		1	7	168	10080
			1	24	1440
				1	60

Er bod y flwyddyn, yn cael eu chyfrif fel hyn, etto mae'r Haul fel y Tyſtia y Pennill hwn, yn ddeuddeg Mis.

Yna

Yn Medi mae Tri Deg cyſanedd,
Ebrill, a Mehefin, Tachwedd;
Yn y lleill mae Diwrnod rhagor,
Wyth ar hugain, Sy' Mis Chwefror.

Eithr ymhen pob Pedair Blynedd, cyfrifir yn flwyddyn y Naid (oddi eithr y Cyſan Gantoedd, ſef, 1800, 1900, &c) 29 o ddyddiau yn Chwefror.

Siamplau.

1. Pa ſawl diwrnod ſydd mewn Blwyddyn gyffredin?	2. Pa ſawl gwaith y tery Awrllais yn y flwyddyn?
Ionawr 31	2976
Chwefror 28	2688
Mawrth 31	2976
Ebrill 30	2880
Mai 31	2976
Mehefin 30	2880
Gorphen. 31	2976
Awſt 31	2976
Medi 30	2880
Hydref 31	2976
Tachwedd 30	2880
Rhagfyr 31	2976
365	35040

3 Beth oedd oed y Byd, pan ddaeth y Diluw?

Pan aned Seth yr oedd Adda yn 130 Oed
——— Enos ——— Seth — 105 —
——— Cainan — Enos — 90 —
——— Mahaleel — Cainan — 70 —
——— Jared — Mahaleel — 65 —
——— Enoch — Jared — 162 —
——— Methuſelah Enoch — 65 —
——— Lamech — Methuſelah 187 —
——— Noah — Lamech 182 —
A phan ddaeth y Diluw, Noah oedd 600 —

Attebion 1656

Cwſtyn

4. Gofynnwyd i Wladwr ei oed, yntef attebodd, Bu i mi 20 o Blant, a blwydd a hanner, rhwng pob un o honynt: yr Hynaf a aned pan oeddwn yn 24 Oed, yn awr, 'mae'r Ieuengaf yn 21 Oed. Dymunaf wybod Oedran yr hen Wr?

Ei oed pan aned yr Hynaf	24 Blw.
Yna 19 a hanner a 19 ydyw	28½ —
Oedran yr Ieuengaf	21 —
Oed y Tad	73½

5 Gofynnwyd i hen Wr ei oedran, Yntef a attebodd, Bu gennyf ſaith o blant; rhwng Genedigaeth, pob un a'u gilydd, 'roedd Dwy flynedd, y cyntaf a aned pan oeddwn 43 Oed: 'nawr y mae'r Ieuengaf yn 44 ebe ef: Dymunaf gael gwybod ei Oed ef? *Atteb* 100.

6. Gwr Bonheddig a ewyllyſiodd wybod, Pa belled yr oedd E. yn ſefyll oddiwrtho ef: a chafodd yr Atteb canlynol, ſef, oddi yma i B. y mae 39 Milldir 6 'ſtad; oddi yno i C. 46 M. 24. Palaid; oddi yno i D. 60 M. 4 'ſtad. 39 Palaid, ac oddi yno i E. 37 M. 6 'ſtad. Pa belled yw A. oddi wrth E? *Atteb* 184 Milldir 1 'ſtad 23 Palaid.

Felly Ddarllenydd, myfi âf at yr Ail Gangen mewn Rhifyddiaeth yr hon a elwir Lleihâd.

DOSB. II.

LLEIHAD.

YRheol hon ſy'n addyſgu, Pa fodd i gael y Rhifedi lleiaf, allan o'r mwyaf, i gael gwybod y gwahaniaeth neu'r Gweddill, megis tynnaf 4 allan o 6, y mae 2, yn weddill.

Cyf. V. Cynmerwch ofal am roddi pethau o'r un Rhywogaeth, tan eu gilydd; ac hefyd Unau tan Unau, Degau tan Ddegau, &c. A pheth bynnag oeddid yn ei gaffio yn y Cyflyllfiad, a raid ei ſenthyca, yn y Rheol hon pan fo achos yn gofyn, a'u talu, at y Rhifnod iſaf, [illegible] ar eſiwy: Rhaid rhoi y Rhifedi mwyaf yn uchaf [illegible]. Decheuwch *Leihau* yn yr un fan a'r *Cyflyllfiad*, fef yr un ddengus yn. eglurach, wrth y ſiamplau canlynol.

Bwriwch

Bwriwch i ryw Wr, brynu 453 Llatheni o fretbyn, ac iddo werthu 221. Pa faint a ddylai fod heb werthu?

Llatheni.

Prynu	4	5	3	Rhif mwyaf.
Gwerthu	2	2	1	Rhif lleiaf.
Heb werthu	2	3	2	Gweddill.

Ar ol rhoddi y Swm i lawr a thynu lein ddu danynt, mi Leihâ gan ddywedyd, 1 allan o 3 mae 2 yngweddill, yr hwn a osodaf tan y lein, yna âf ymlaen a thynnaf 2 allan o 5, a chaf yn weddill 3, yna âf i'r golofn olaf, gan ddywedyd 2 allan o 4 caf yn weddill 2, yr hwn a roddaf tan y lein, yn ei le ei hun: Felly gwelwch uchod 231 heb werthu.

Cyf. VI Os mynnwch wybod a fydd eich gwaith yn gywir, Cyfsylltwch y Rhifedi lleiaf, a'r gweddill yn un Swm: Os bydd yr un faint a'r mwyaf, mae yn gywir. Fel hyn y Profir yr holl Siamplau yn y Rheol hon, ond gofalu am garrio, a thalu, yn ol Tablau y Cyfsylltiad.

Er profi hyn, mi a dynnaf y fiampl uchod i ymyl y ddalen, fel y gweli ar y llaw ddeheu; am fy mod wedi ei *lleihâu* yn barod: Mi gyfsylltaf y ddau Rifedi yn ol *Cyf.* olaf. gan ddywedyd, 2 ac 1 yw 3, yr hwn a rôf, tan y lein; yna 2 a 3 yw 5; yna 2 a 2 yw 4: Felly gwelwch y lein isaf yr un peth ar lein uchaf, am hynny diameu eu bod yn gywir.

4	5	3	
2	2	1	
2	3	2	
4	5	3	

Siamplau i'w harfer.

	l.	l.	l.
Benthyg	1978	5046	10436
Talu	1641	3881	2056
Heb dalu	337	1165	8380
Profiad	1978	5046	10436

Gwr

Gwr a gádd fenthyg 554l. ac a dalodd, 496. Pa faint ſydd heb dalu?

Mi a roddaf, y Swm ar lawr, gan ddywedyd 6 allan o 4, 'does fodd i gael, mi a gymmeraf ſenthyg Deg, o'r Rhifnod neſaf atto yw wneuthur yn 14; yna 6 allan o 14 y mae yn weddill 8; yna yr hyn a fenthyciais, a dalaf yn ol at y 9, i wneuthur 10, yna meddaf 10 allan o 5, 'does fodd, (mi fenthycaf fel or blaen) ond 10, allan o 15 caf 5; yna mi dalaf gan ddywedyd 1 a 4 yw 5, yr hyn a dynnaf allan o 6, a chaf 1 yn weddill, yr hwn oſodaf tan y lein. Felly y gwaith a orphenwyd, a gwelir fod 158l. heb dalu, yr hyn a brofir fel o'r blaen.

654	
496	
158	
654	

Cyf. VII. Pan ddigwyddo Gwagnodau, yn y lein uchaf, benthycwch at helwch, fel pe byddant yn Rhifnodau cyfrifol.

Siamplau i'w harfer.

	l.	l.	l.
Benthyg	1470	7006	100000
Talu	941	6871	62156
Heb dalu	529	135	37844
Profiad	1470	7006	100000

Cyf. VIII. Os mynnwch wybod, Pa ſawl Blwyddyn aeth heibio, er pan Adeiliadwyd *Ty*, Geni *Dyn*, Cyttundeb wedi ei wneuthur, *Rhyfeddod* wedi bod, Rhowch y bresennol flwyddyn ar lawr yn uchaf, a'r flwyddyn y bu 'r peth oddi tani, iw thynnu o'r flwyddyn bresennol.

Siamplau.

Yn Mhymtheg cant, Triugain, bu farw Syr Wynn: Pa faint o flynyddau, ſydd er pan ſu hynn?

Y Flwyddyn bresennol -	1796
Y Flwyddyn y bu ef farw -	1560
Atteb	236

Y Bibl

1796
2. Y Bibl a Agraphwyd yn Gymraeg, - 1588
Pa faint o flynyddoedd a aeth heibio? ——
Atteb 208

3. Os bydd gwr yn 48 oed Eleni, 1796
Pa flwyddyn y ganwyd ef? 48
——
Atteb 1748

4. Y mae Dau Rifedi, y mwyaf yw 102, â'r lleiaf yw 72, Beth yw y Rhagoriaeth a'u Swm?

Y mwyaf	102
Y lleiaf	72
Y Rhagoriaeth	30
Eu ſwm	174

Lleihad Arian o Amryw Enwau.

Siamplau

	£.	s.	d.
Bydded eich bod wedi Benthycca -	72	11	6½
A thalu allan o honynt - -	47	11	9½
(Benthycwch a thelwch a yn ol y Cyf. IV) Felly y mae heb dalu. -	24	19	8¾

Mi a ddechreuaf yn y ffyrlingau, gan ddywedyd 2 allan o 1, ni ellir eu cael (Benthycaf geiniog o lein y Ceiniogau at y ffyrling i wneuthur 5,) ond 2 allan o 5 caf 3 yw rhoi tan y lein; yna mi dalaf y benthyg gan ddywedyd 1 a 9 yw 10, allan o 6 ni chaf, ond 10 allan o 12 (ſef 1s. a fenthycaf) mae yngweddill 2, yr hwn a gyflyllaf ar 6 uchod i wneuthur 8; yna 1 rwy'n ei ga[illegible] 11 yw 12, allan o 11, ni chaf, ond allan o 20 [illegible] fenthycaf) mae 8, yw Cyflyltu a'r 11, hwy wn[illegible] 'w rhoi ar lawr; yna medd f 1 a 7 yw 8, all[illegible] ni chaf, ond allan o 12 mae'n weddill 4; yna [illegible] yw 5 allan o 7 y mae'n weddill 2. Felly y mae [illegible]talu £24 19s. 8¾d. Gwelwch y Profiad uchod.

Un

Un o Benaethiaid y *Militia*, a dderbyniodd 578l. 15s. 4d. Ac a dalodd i'r Gwŷr, 464l. 16s. 10d. Pa faint fydd yn ei Ddwylaw ef?

	l.	s.	d.
Derbyniodd	578	15	4
Talodd	464	16	10
Heb dalu	113	18	6
Profiad	578	15	6

Yma meddaf, 10 allan o 4, nid allaf, ond 10 allan o 12d. mae yn weddill 2, a'r 4 uchod yw 6, yw rhoi tan y lein; yna 1 a garriaf, ac 16 yw 17, allan o 15 ni chaf, ond 17 allan o 20s. mae yn weddill 3 yw Cyfflylltu at y 15, i wneuthur 18, yw rhoi i lawr, yna 1 a garriaf a 4 yw 5, allan o 8 mae 3; yna 6 allan o 7 mae 1; yna 4 allan o 5 mae 1, yr rhai'n a rôf ar lawr: Felly gwelwch fod yn ei ddwylaw 113l. 18s. 6d. Profir megis o'r blaen.

Tynnwch un ffyrling allan o 100l.

	l.	s.	d.
Benthyg	100	0	0
Talwyd	000	0	$0\frac{1}{4}$
Heb dalu	099	19	$11\frac{3}{4}$

Siamplau i'w harfer

	l.	s.	d.		l.	s.	d.
Benthyg	419	2	$10\frac{1}{4}$		7174	11	1
Talu	197	3	$10\frac{1}{2}$		2176	15	$9\frac{1}{4}$
Heb dalu	221	18	$11\frac{3}{4}$		4997	15	$3\frac{3}{4}$
Profiad	419	2	$10\frac{1}{4}$		7174	11	1

Lleihad Pwysau Averdupois.

Gwerthwr Haiarn a Brynodd 74 T. 13 C. 2 Chwa. 24 lb. ac a werthodd, 56 T. 11 C. 1 ch. 20 lb. Pa faint fydd heb werthu?

Prynu

	T.	(20) C.	(4) qr.	(28) lb.
Prynu	74	13	2	14
Gwerthu	56	11	1	20
Heb werthu	18	2	0	22
Profiad -	74	13	2	14

Yma meddaf 20 allan o 14, ni chaf, ond 20 allan o 28, mae 8, i'w gyfflylltu gyd a'r 14 i wneuthur 22, yr hyn a rôf ar lawr, yna talaf y Benthyg, a dywedaf, 1 ac 1 yw 2 allan o 2 ni chaf ddim, rhôf o i lawr; yna 11 allan o 13 mae 2, yna 6 allan o 14 mae 8, a chwedi talu meddaf 6 allan o 7 mae 1 yn weddill. Gwelwch uchod.

Lleihad Pwysau Troy.

Tybiwch fod Gôf Arian, wedi Prynu 2 lb. 10 w. 14 P. c. 13 Gr. ac a werthodd 1 lb. 8 w. 12 P. c. 19 Gr. Pa faint oedd ganddo heb werthu?

	lb.	(12) wns.	(20) P. c.	(24) Gr.
Prynodd	2	10	14	13
Gwerthodd	1	8	12	19
Heb werthu	1	2	1	18
Profiad	2	10	14	13

Lleihad Gwlyb-Fesurau.

	Hog.	(63) G.	(8) P.	Hog.	(63) G.	(4) Ch.	(2) P.
Prynu	130	58	5	40	10	1	1
Gwerthu	71	14	4	39	18	0	1
Heb werthu	59	44	1	00	55	1	0
Profiadau	130	58	5	40	10	1	1

Lleihad Sych Fesurau.

	(8)	(4)	(2)		(8)	(4)	(2)
Qr.	B.	P.	G.	Qr.	B.	P.	G.
37	3	1	0	87	5	1	0
29	5	0	0	77	6	0	1
7	6	1	0	9	7	0	1
27	3	1	0	87	5	1	0

Lleihad Hyd Fesur.

	Mill.	(8) Yſtad	(40) Pal.	(5½) Llath.	(3) Tro.	(12) Modf.
Allan o	510	6	34	4	1	10
Cymmer	79	5	37	3	2	7
Gweddill	431	0	37	0	2	3

Lleihad Amser.

	Blw.	Mis.	(4) Wy.	(7) Di.	(24) Awr.	(60) Mun.	(60) Ail.
Allan o	101	11	1	5	17	40	31
Cymmer	99	12	3	4	19	57	47
Gweddill	1	11	1	0	21	42	44
Profiad	101	11	1	5	17	40	31

Siamplau i'w harfer yn y Rheol hon.

1. Gwr wrth farw, a roddodd i'w Fâb, a'i Ferch, 13111l. 10s. 6d. Ei ferch oedd i gael, Un mil ar ddeg, Un cant ar ddeg, ac Unarddeg o bunoedd, Pa faint oedd cynyſgaeth y Mâb?

		l.	s.	d.
11000	Yr oedd rhwng y Ddau	13111	10	6
1100	Cynyſgaeth y Ferch	1211	0	0
11				
12111l.	Cynyſgaeth y Mâb oedd	1000	10	6

2. Cyttundeb

2. Cyttundeb Jacob a Laban, oedd, ei wasanaethu ef 14 o flynyddoedd, am ei Ddwy Ferch; Jacob a gyflawnodd 11 o Flynyddoedd, 11 o Fisoedd, 11 o Wythnosau, 11 o Ddyddiau, 11 o Oriau, ac 11 o Funudiau; Pa faint o Amser oedd arno ef?

	B.	M.	W.	D.	A.	M.
Yr oedd ef i wasanaethu -	14	0	0	0	0	0
Efe a gyflawnodd -	12	1	0	4	11	11
Yr amser oedd arno ef -	1	11	3	2	12	49

3. Eich Taid, os byw ydyw, sy'n 119 oed, a'ch Tad yn 65; nid ydych, chwi môr hen a'ch Taid o 83 o Flynyddoedd; Pa faint o Flynyddoedd, sy' rhwng eich Tâd â chwi?

Oed y Taid -	119	Oed ei Dâd -	65
Cymmer allan -	83	Cymmer allan -	36
Oed y Gwr	36	*Atteb*	29

4. B. a anwyd 14 o flynyddoedd ar ol C. yr hwn a ddaeth i'r Byd, 19 o flynyddoedd cyn A. yr hwn oedd yn 23 Oed, wyth mlynedd a aeth heibio: Beth gan hynny yw Oed D. yr hwn sydd o fewn 22 o flynyddoedd, môr hên a'r Tri ynghyd?

Yn gyntaf 23 ac 8 yw 31, oed A.
Ac 13 a 19 yw 50, oed B.
Yna 14 allan o 50 yw 36, oed C.
Etto 31, 50, a 36. a'i swm
yw 117 lleihewch 22 allan o honynt
Cewch 95 Oed D.

5 Y chwi a anwyd 34 o flynyddoedd ar fy ol i; Pa Oedran a fyddaf i, pan fyddo chwi yn 17? A pha Oedran a fyddwch chwitheu, pan fyddaf fi yn 70?

Atteb { Byddaf i yn 34 a 17, sef, 51 Oed.
{ Chwitheu a fydd yn 50 onid 34 sef, 16

DOSB. III.

Y LLIOSOGIAD.

YN y Rheol hon, yn waſtad y rhoddir allan, ddau Riſedi, i gael y trydydd: mae'n ddefnyddiol i dynnu Pethau mawr, i Enwau bychain; etto yr un werth megis, Punt yn ffyrlingau, Tunnell yn Wnſiau, &c.

Yn y *Llioſogiad*, y mae Tri pheth i ſylwi arnynt.

Y *cyntaf* y Llioſogaeth, yr hwn a roddir i'w Lioſogi, yn gyfredin, ef yw'r mwyaf.

Yr *Ail* y Llioſogydd, a'r hwn y Llioſogir y Llioſogaeth (yn amlaf) y Rhifedi lleiaf.

Y *Trydydd*, y Cynnyrch, neu y Rhifedi, ſydd yn cael ei yſtyn allan, wrth Lioſogi, yr hwn yw'r Attebiad.

Cyn imi fyned ymlaen, Rhoddaf y DABLEN Lioſogiad ar lawr, fel y gallo yr hwn ſydd am ddyſgu ymhellach, ei chadw yn ei gôf: ar yr hon y mae yr holl Reolau canlynol yn ſefyll.

2 gwaith	2	yw	4
	3		6
	4		8
	5		10
	6		12
	7		14
	8		16
	9		18
3 gwaith	3	yw	9
	4		12
	5		15
	6		18
	7		21
	8		24
	9		27
4 gwaith	4	yw	16
	5		20
	6		24
	7		28
	8		32
	9		36
5 gwaith	5	yw	25
	6		30
	7		35
	8		40
	9		45
6 gwaith	6	yw	36
	7		42
	8		48
	9		54
7 gwaith	7	yw	49
	8		56
	9		63
	10		70
8 gwaith	8	yw	64
	9		72
	10		80
9 gwaith	9	yw	81
	10		90
	11		99

Y DABLEN

Y Dablen uchod a ddarllenir, 2 waith 2 yw 4, 2 gwaith 3 yw 6, &c. A'r lleill yr un modd. D. S. Y mae yn angenrheidiol eu dyſgu yn y gwrthwyneb hefyd, fel hyn, 9 gwaith 2 yw 18, 9 gwaith 3 yw 27 &c.

Cyf. IX. Pan roddir unrhyw Rifedi, i'w Llioſogi, goſodwch hwnnw yn uchaf, yr hwn elwir Llioſogaeth, a thano ef y Llioſogydd, mewn trefn; Unau tan Unau, &c. Yna tynnwch lein ddu tanynt, a dechreuwch Lioſogi bob Rhifnod, (megis arferol, yn y *Cyſſylltiad* a'r *Lleihâd*) a charrio 1 am bob Deg tu ar llaw aſſwy.

Siamplau.

Llioſogaeth	472	472	472
Llioſogydd	3	4	5
Cynnyrch	1416	1888	2360

Yma meddaf, 3 gwaith 2 yw 6, yr hwn a roddaf ar lawr, tan y lein, megis uchod; yna 3 gwaith 7 yw 21, Rhôf 1 ar lawr a charriaf 2; yna 3 gwaith 4 yw 12, a 2 rwy'n garrio yw 14, y rhai'n a roddaf ar lawr, am eu bod y Rhifnodau olaf; Felly gwelwch, fod 472, 3 gwaith yn 1416.

Cyf. X. Pan fyddo y Llioſogydd yn cynnwys mwy nac un Rhifnod; Rhaid bod mwy nac un lein iw Cyflyllu yn un Swm: ond goſalwch am oſod y Rhifnodau Cyntaf, tan eu Llioſogydd: Felly neſau at y llaw aſſwy, un Rhifnod am bob Lliſogydd, er maint a fyddant.

Siamplau

1 Pa faint o Oriau ſydd mewn 365 o Ddyddiau, ſef Blwyddyn? 24

Y Cynnyrch wrth 4	1460
Y Cynnyrch wrth 2	730
Oriau mewn Blwyddyn	8760

2 Pa ſawl munud ſydd mewn 8760 o Oriau?
Mewn awr y mae 60 Munud.

Atteb 525600

Neu Lioſogwch y cyfryw Rîf a'r Sylltau, gan gymmeryd y Rhannau megis arferol: rhoddaf y ddwy ffordd hyn ar lawr, y naill i brofi y llall.

Siamplau

		Llâth.	s.	d.
2s	1/10	125	am 2	8½ llâth.
6d	½	12	10	s.
2d	⅓	3	2	6d.
½	¼	1	0	10
		0	5	2½
		£.16	18	6½ Atteb.

Yma 2s. yw 1 ofed o Bunt, gan hynny 125 ÷ 10 = £.12 10s. yna 6d. 4edd o 2s. £.12 10s. ÷ 4 = 3-2-6 yna 2d. y 3edd o 6d 3 ÷ 3-2-6 = £.1 a 10d. yna ½ 4edd o 2d. £.1 a 10d. ÷ 4 = 5s. 2½d. i'w Cyſſylltu ynghyd.

Prawf

Prawf ffordd arall.

		Llâth.	s.	d.
6	½	125	am 2	8½
		2		
		250		
2d	⅓	62	6d.	
½	¼	20	10	
		5	2½	
	2,0	33,8	6½	
		£.16	18	6½ *Att.*

Yma Llioſogaf 125 a 2s. a châf 250s. yn ol 2s. y llâth yna 6d. yw ½ Swllt, *Cyfrannaf* y lein uchaf a 2 (nid 250) câf 62s. 6d. yna 2d. yw'r 3ydd o 6d. *Cyfranraf* a 3 câf 20s. 10d. yna ½ yw'r 4edd o honynt ſef 2s. 2½d. yr hyn a Gyſſylltaf ynghyd, a châf £.16 8s. 6½d. ſel o'r blaen.

Cyf. XXXVIII. Pan fyddo y Prîs yn union Rifedi o Sylltau megis 2, 4, 8, *&c.* Yna Llioſogwch y maintioliaeth a hanner Rhîf y Sylltau, gan dorri ymaith y Rhifnod cyntaf yn lle'r unau a *Scrip* y Pin, yna y cwbl ar y llaw aſſwy fydd Bunoedd, a'r hwn a dorrwyd i'w ddyblu am Sylltau, yn atteb cywir.

Siamplau

1. Beth a gŷſt 79 o Lathenau am 6s. y Llâth?

79 am 6s. y llâth
3 hanner y Prîs

23,7
£.23—14 *Atteb.*

Yma llioſogaf a 3 canys hanner 6 ydyw, a châf 237 o Sylltau, torraf y 7 ymaith, a dyblaf ef yn 14 yr hyn yw Sylltau a'r lleill a ſaif yn Bunoedd; yr hyn a eglurir ymhellach wrth y Siamplau canlynol.

Lloiau	s.	Defaid
328 am	12 y Pen	365 am 18s.
6	Hanner y Priſiau	9
196,8		328,5
£. 196 - 16	*Atteb.*	£.328 - 10

Cyf.

Cyf. XXXIX. Pan fyddo y Prîs, yn rhyw union Rifedi o Sylltau, ac eiſiau gwybod, Pa faint a ellwch ei brynu am unrhyw Rifedi o Bunau: yn unig Cyſſylltwch Wagnod attynt, a Chyfrennwch y Swm a hanner y Prîs cewch yr atteb yn *Bwyſau*. &c.

Siampl

1. Pa faint o Lîw Glâs a brynaf am 54l. yn ol 4s. y lb.?

½ 4 yw 2)540

Atteb. 270 y Pwyſau.

Y mae y Rheol hon yn eglur, fel nad rhaid, rhôi addyſg yn ei chylch: chwi a ellwch wneuthur Mîl o'r cyfryw, ond yſtyried y *Cyf.* uchod.

DOSP. IX.

AM LOG ARIAN.

Cyf. XL. Llioſogwch y Swm, a'r Llôg a ſo arnynt y cant, gan dorri ymaith Ddau Rhifnod ar y llaw ddehau (yr hyn yw'r un a *Chyfrannu* a 100) a'r Rhifnod a fydd ar y llaw aſſwy yw Punoedd y Llôg: Yna Llioſogwch y Rhifnodau a dorrwyd ymaith ag 20, gan gymmeryd y Sylltau od i mewn, a thorri Dau Rhifnod ſegur fel o'r blaen, a'r lleill fyddant Sylltau; Yna Llioſogwch y Gweddill a 12 a gwnewch yr un modd: Yna a 4 i wneuthur Ffyrlingau, os bydd rhaid.

Siamplau

1. Beth yw Llôg 175l. 10s. tros flwyddyn yn ol 5l. y Cant?

l.	s.
175	10s.
	5

£.8,77 10
20

£.15,50
12

£.6,00

Profiad

l.	s.
2,0)	17,5 10

£.8 15 6d. *Atteb.*

Atteb. 8l. 15s. 6d.

Pa

Pa faint bynnag a fyddo Llôg un rhyw Swm y Cant; Llioſogwch ag ef, megis uchod: Eithr, os bydd Miſoedd, Cymmerwch $\frac{1}{4}$ $\frac{1}{2}$ $\frac{3}{4}$ &c. o'r flwyddyn i'w Cyflyltu at y Cynnyrch.

Am y Profiad, yſtyriaf mae 5l. yw'r $\frac{1}{20}$ ran o 100l. er i mi Gyfrannu 175 ag 20, Meddaf yr 20fed o 10s. yw Chwe Cheiniog.

TAFLEN yn dangos Llôg unrhyw Swm o Arian, o Fil o Bunau, hŷd Bunt, am bob Rhifedi o Ddyddiau, a phôb mâth o Lôg.

Swm	L.	s.	d.	q.	Swm	L.	s.	d.	q.
1000	2	14	9	2.14	50	0	2	8	3.51
900	2	9	3	2.12	40	0	2	2	1.21
800	2	3	12	0.11	30	0	1	7	2.90
700	1	18	4	1.10	20	0	1	1	0.60
600	1	12	10	2.80	10	0	0	6	2.30
500	1	7	5	3.73	9	0	0	5	3.67
400	1	1	11	0.50	8	0	0	5	1.40
300	0	16	5	1.40	7	0	0	4	2.42
220	1	10	11	2.30	6	0	0	3	3.76
100	0	5	5	3.15	5	0	0	3	1.15
90	0	4	11	5.71	4	0	0	2	2.52
80	0	4	4	2.51	3	0	0	1	3.80
70	0	3	10	0.11	2	0	0	1	1.26
60	0	3	3	1.81	1	0	0	2	2.63

CYF. XLI. Llioſogwch y Swm a Rhifedi 'r Dyddiau, a'u cynnyrch, a ſwm y Llôg yn ol y Cant; yna torrwch ymaith y Ddau Rhifnodau olaf ar y llaw Ddehau, ewch i'r Tabl gyd a'r gweddill ar y llaw aſſwy; ac ar gyfer y Rhifau wedi eu caſglu ynghyd, y cewch y Llôg a fyddo dyledus i'r ſwm.

2. Beth yw Llôg 100l. yn ol 5l. y Cant, tros 365 o Ddyddiau?

Niſer y Dyddiau	- -	365
Llioſoger a	- -	100l.
Y Cynnyrch yw	- - -	36500
Yr hyn a lioſogir a	- - -	5 Llôg y Cant.
Gwnant	- -	1825,00

Yna

Yna allan o'r Tabl.

			£.	s.	d.	q.rh.
A'r gyfer	1000	y mae	2	14	9	2.14
	800		2	3	10	0.11
	20		0	1	1	0.60
	5		0	0	3	1.15
		Atteb	5	0	0	0. 0

3. Pa faint yw Llôg 100 Punt, am 185 o Ddyddiau yn ol 6 Phunt y Cant, yn y Flwyddyn?

£.	o'r Tabl		£.	s.	d.	q rh.
185	1000		2	14	9	2.14
100l. ar gyfer	100	yw	0	5	5	3.15
	10		0	0	6	2.30
18500						
6l.	1110	*Atteb*	3	0	9	3.59
111000						

D. S. Y Degrannau ydynt 100fed ran o Ffyrling.

DOSP. X.

Lliosogiad, Troedfeddau, Modfeddau a Rhanau.

YMAE'R Lliosogiad hwn yn fuddiol, ym mhob mâth ar Fesurau, yn hawdd ei ddeall, ac yn esmwyth i'r côf, ac môr ddigolled a Thoriadau Degranau; (Decimal Fractions) ond cyn antirio ymhellach: Cymmerwch i'ch ystyriaethau y Rheolau canlynol.

Troedf. Liosogir a { Thro. / Modf. / Rhan. } Gynnyrcha { Droedf. / Modfedd / Rhannau

Modf. Liosogir a { Thro. / Mod. / Rhan. } Gynnyrcha { Modfedd / Rhannau / Ailiadau

D. S. 12 Ailiad a wna 1 Rhan, 12 Rhan a wna 1 Fodfedd, a 12 Modfedd a wna 1 Droedfedd y yn Lliosogiad yma.

Cyf.

Cyf. XLII. Gwedi eu gosod tan eu gilydd, Dechreuwch yn y Troedfeddau, a Lliosogwch y Rhifnod nesaf i'r llaw Ddehau, gan gyfrif pob 12 yn un i'w garrio tua'r Asswy: Yna cymmeryd y Modfeddau i Lliosogi; a'r hyn a fyddo uwch law 12au, i'w gosod tua'r llaw ddehau, yn Rhannau: Yna ei Cyfsylltu megis-isod.

Siamplau.

1. Bydded 7 Droedfedd 9 Modfedd, yw Lliosogi a 3 Troedfedd a 6 Modfedd?

Tro.	Mod.		Tro.	Mod.	
7	9		75	7	
3	6		9	8	
23	4	Rhan.	680	3	Rh.
3	10	6	50	4	8
27	1	6	730	7	8

Yma Lliosogaf y 9 Mod. a 3 Troed, gan ddywedyd 3 gwaith 9 yw 27, yr hyn yw dwy droed. a 3 Mod. i'w dodi dan y Modfeddau, a charriaf 2 a dywedaf 3 gwaith 7 yw 21: a 2 (rwy'n garrio) yw 23 y rhai a roddaf ar lawr, dan y Troedfeddau.

Yna Lliosogaf, a'r 6 Mod. a dywedaf 6 gwaith 9 yw 54, (deallaf wrth *Cyfranniad*) yr hyn yw 4 Mod. a 6 Rhan, rhôf y 6 Rhan i lawr, a charriaf 4 gan ddywedyd, 6 gwaith 7 yw 42 a 4 (rwy'n garrio) yw 46 Modfedd, sef, 3 Troedfedd a 10 Modfedd i'w rhoddi i lawr, yw Cyfsylltu ynghyd, a'u Cynnyrch yw 27 Tro. 1 Mod. 6 Rhan.

Yn yr ail Swm, Dywedaf 9 gwaith 7 yw 63, yr hyn i'w 5 Troed. a 3 Mod. rhôf y 3 i lawr a charriaf 5, a dywedaf 9 gwaith 5 yw 45 a 5 yw 50 rhôf o ar lawr a charriaf 5, a dywedaf 9 gwaith 7 yw 63 a 5 yw 68 y rhai a rôf i lawr: Af ymlaen i Lliosogi a'r 8 Mod. Dywedaf 8 waith 7 yw 56 y Deuddegau ynddynt yw 4 i'w garrio, ac 8 Ran: Yna 8 waith 75 yw 600 a 4 yw 604, y rhai a *Gyfrannaf*, a 12, y *Cyfran* yw 50 Troed. a 4 Mod. Felly y Cynnyrch oll yw 732 Troed. 7 Mod. ac 8 Rhan.

Cyf. XLIII. Pan fyddo Dau, neu Dri o Rhifnodau yn y Troedfeddau, ar ol Llioſogi y Troedfeddau, a'r Modfeddau gymmeryd y Rhannau yn ol Rheol *Ymarferiad*; i'w Cyffylltu ynghyd fel arferol, Dygaf y Siampl uchod i lawr, i'w threio yn y ffordd hon.

Siampl.

Tro.	Mod.	
75	7	
9	1	2
680	3	R.
⅓ 25	2	4
⅓ 25	2	3
Atteb. 730	4	8

Yma Llioſogaf a 9 fel uchod Yna rhannaf 8 Mod. yn Ddwy ran, 4 a 4 yw ½ ran o 12: Ymofynaf Pa ſawl 3 ſy' mewn 7, 2 a charrio 1 Deg, a 5 yw 15 yna o 3au ynddo mae 5; Yna 3 yn y 7 yw 2, ac 1 Mod. neu 12 R. y 3au mewn 12 yw 4; rhoſ hwy i lawr eilwaith.

Trein newydd ar y Llioſogiad uchod.

Cyf. XLIV. Rhoddwch Droedfeddau'r Llioſogydd dan yr Enw lleiaf yn y Llioſogaeth, a'r lleill ar ei ol, Dechreuwch Lioſogi'r enwau lleiaf, gan *Gyfrannu'r* Cynnyrch a 12, a rheddi'r Gweddill dan y Llioſogydd, a charrio ymlaen, at y neſaf, ac wedi Llioſogi, Swm y cwbl yw'r *Atteb.* Ar ol rhôi'r Llioſogaeth i lawr, Rhoweh wagnod ar y llaw ddehau iddo a Rhannau dano ef, megis iſod.

Siamplau

Llioſogwch { 7 Tro. 10 Mod. ag 8 Tro. 6 Mod? / 64 Tro. 7 Mod. a 4 Tro. 8 Mod?

7	10	0		64	7	0	
X	8	6		X	4	8	
3	11	0		43	0	8	
62	8	0		258	4	0	
66	7	0	*Atteb.*	301	4	8	

Dechreuaf

Decbreuaf y Swm Gyntaf, gan ddywedyd, 6 gwaith 10 yw 60, ſef, 5 Tro. i'w carrio, ac o i'w rhoddi tan y Wagnod: Yna 6 gwaith 7 i'w 42 a 5 yw 47 ſef, 3 Tro. ac 11 Mod. i'w rhôi i lawr, yna 8 waith 10 yw 80, ſef, 8 i lawr a charrio 6: Yna 8 waith 7 yw 56, a 6 yw 62, i'w Cyſſyllty ynghyd. Gwelwch uchod.

Yr ail Swm a egluraf fel hyn. $8 \times 7 = 56 \div 12$, $= 4$ Tro. 8 Mod. Yna $8 \times 64 + 4 = 516 \div 12 = 43$. Yna $4 \times 7 = 28$, ſef, 2 Dro. i'w carrio a 4 i lawr. Yna $4 \times 64 + 2$ yw 258 i'w Cyſſyllty ynghyd.

Gan fod Achoſion i ymarfer a'r Rheol hon yn y MESURIARETH, Myſi a âf i'r Degrannau.

DOSP. XI.

Am y DECIMALS, neu'r DEGRANNAU.

PWY oedd awdwr y rhan hyn o Rifyddiaeth ſydd anhyſpys, ond y cyntaf a'i rhoes allan oedd *Simon Stephenus*; ac oni buaſai ei cael allan, buaſai lawer caingc mewn Rhifyddiaeth yn rhy fyr: Y mae 'n fwy arfaredig (yn enwedig gan yſgolheigion uchel) y Degrannau, y rhai a nôdir a Gwahanydd o'u blaen fel hyn, .5 yn arwyddoccau 5 degfed ran o'r Rhif. .35 Canfed ran o'r Rhif, *&c.* Yr hyn a eglurir yn well y Tabl canlynol.

Miliwnau.	C. Miloedd.	X. Miloedd.	Miloedd.	Cantoedd.	Degau.	Unau.	Degfedran.	Canfedran.	Milfedran.	X. Milfedran.	C. Milfedran.	Miliwnfedran.
7	6	5	4	3	2	1	2	3	4	5	6	7

Yma mae 2 yn y cyfanrif yn arwyddocau, 2 Ddeg neu 20; ond y Rhifnod 2 yn y Degrannau ſy'n arwyddoccau 2 Ddegfedran o un.

Y mae 7 Degrannau, megis Rhifyddiaeth cyfredin yn cymmeryd eu lleodd a'u henw, yn ol eu ſefyllfa oddiwrth le yr Unau; os y lle cyntaf, ar ol lle'r unau (neu'r Gwahanydd) y byddant, y maent yn gynniſer o Ddegau o rannau, os yn yr Ail lle y maent yn gantoedd; megis y Degrannau hyn .456 y Rhifnod 4 a elwir Penafiad, neu 4 Degfedran; a'r 5 yn Bum' canfedran o'r Cyfanrif, &c.

Gwagnodau ar y Llaw Ddehau i'r Degrannau, nid ydynt yn eu mawrygu yn Ddeg cymmaint; ond ar y Llaw Aſſwy y maent yn eu mawrhau, fel hyn .40 nid yw 4 degfedran o'r Cyfanrif, ond .04 yw 4 Canfedran o'r Cyfanrif.

N. B. Cofiwch hefyd fod .5 yn arwyddocau hanner Cyfanrif, 25 Chwarter, .75 Dri Chwarter; Canys 5 yw $\frac{1}{2}$ $\frac{1}{4}$ Cant a .75 $\frac{3}{4}$ Cant.

Dadchweliad Degrannau.

Y mae'n arferedig gan rai roddi y *Cyſſylltiad*, a'r *Lleihâd* megis yn y Rhifyddiaeth cyffredinol, ond cyn y deallo neb beth y maent yn ei wneuthur, rhaid iddynt ddyſgu, y *Dadchweliad* yn gyntaf; Yn yr hon mae Tri pheth yn gynhwyſedig: I. I Ddadchwelyd Toriadau cyffredin yn Ddegrannau. II. I wybod gwerth y Degrannau, yn Arian, Pwyſau, neu feſurau. III. Y modd i wneuthur Arian, Pwyſau, neu Feſurau yn Ddegrannau; yr hyn a eglurafyn eu Trefn.

I. I Ddychwelyd y Torriadau yn Ddegrannau.

Dichon fod rhai o'r Cymry, na welſant Dorriadau erioed, oddieithr Tablau *Riſiard Moris* yn y *Biblau* Cymraig, ond pa un bynnag hwy a nôdir fel hyn $\frac{1}{2}$, $\frac{3}{4}$, $\frac{4}{5}$ fef hanner, Tri phedwerydd, Pedwarpumed: yr uchaf a elwir Rhifydd, a'r iſaf Cyfenwydd.

Cyt. XLV. Cyſſylltwch ryw nifer o wagnodau, at y Rhifydd, gan rôi y Gwan'ydd, rhyngddynt ac ef. Yna Cyfrennwch a'r Cyfenwydd, gan rôi y Gwan'ydd o'i blaen megis y canlyn.

Siamplau

Siamplau

1. Dychwelwch $\frac{1}{4}$, $\frac{1}{2}$, $\frac{3}{4}$, yn Ddegrannau?

4)1,00	2)1,0	4)5,00
Atteb 25	5	75

Noda Fod weithiau eiſiau tair neu bedair o wagnodau, ond os cewch Dri Rhifnod yn y Degrannau, nid yw y lleill ddim i'w cyfrif.

II. I Ddadchwelyd y *Degrannau*, yn Arian, Pwyſau a Meſurau, *&c.*

Cyf. XLVI. Llioſogwch y *Degrannau* a Rhîf, a gynnwys yr enw neſaf, ac o'r Cynnyrch, gwahanwch yr un faint o Rhifnodau, tua'r Llaw ddehau, ac fyddo gennych yn y *Degrannau* rhoddedig: Yna llioſogwch y Rhifnodau hynny a wahanwyd, a'r enw neſaf yn waſtad, gan eu gwahanu fel o'r blaen; Felly parhau hŷd oni ddygir i'r enw i'r lleiaf.

Siamplau

2. Bydded .7565 o Bunt i Dadchwelyd, i Sylltau, Ceiniogau, a Ffyrllingau? *Atteb.* 15s. 1d. 2q.

.7565	Rhannau Punt	} Llioſogwch.
20	Sylltau mewn Punt	
s. 15.1300	Rhannau Sŵllt.	} Llioſogwch.
12	Ceiniogau mewn Sŵllt.	
d. 1.5600	Rhannau Ceiniog	} Llioſogwch.
4	Ffyrl. mewn Ceiniog.	
q. 2.2400	Rhannau Ffyrlingau.	

Nid oes achos rhoddi addyſg ynghylch unrhyw Swm o Rannau Punoedd: Guineas hefyd, a wneir yr un modd, ond eu Llioſogi'n gyntaf ag 21s. yna Llioſogi a 12 *&c.* yr un modd y gwneir a Thunnellau neu Gantoedd *&c.* yr hyn a broſir yn y blaen.

Y modd i wybod pa faint o Arian fydd mewn Degrannau Punt ar olygiad.

Cyf. XLVII. Dyblwch y Rhifnod nefaf, i'r Llaw aſſwy, ac os bydd yr Ail, yn 5, neu 'chwaneg Cyſſyllltwch 1 Sŵllt attynt; yna pa un bynnag a'i mwy a'i llai na 5, Cyfrifwch yr hyn a fyddo tros 5, neu yn llai na 5 yn Ddegau, yw Cyſſylltu gyda'r Trydydd yn gynnifer o ffyrlingau: Os byddant yn fwy na 13 bwrriwch ymaith 1; neu uwch 38 bwrriwch ymaith 2 ffyrling, fel y canlyn.

Siamplau

3. Pa faint yw .39525 o Bunt? *Atteb* 7s. 10¾d.

Yma meddaf, 2 waith 3 yw 6; yna am fod yr Ail Rhifnod yn fwy na 5, Cyfrifaf 1 'chwaneg, yr hyn yw 7 Sŵllt; Yna y mae 4 o'r 9 yn weddill, i'w carrio at y 5, i wneuthur 45 ffyrling; am eu bod yn fwy na 38, bwrriaf 2 ymaith, a galwaf hwy yn 43, yr hyn yw 10¾d.

4. Pa faint yw .0672 o Bunt? *Atteb* 1s. 4d.

Yma dyblaf, yr o nid yw ddim, ond am fod yr Ail yn fwy na 5 Cymmeraf 1 Sŵllt, ac 1 a garriaf at y 7 i wneuthur 17 ffyrling, gan wrthod 1 nid ydynt ond 16, neu 4d. megis uchod.

Er eglurhau y Rheol hon deallwch, Fod y Degrannau nefaf i'r Gwahanydd yn gynnifer Degau o Bunt; 'nawr $\frac{1}{20}$ o Bunt yw 1 Sŵllt, am hynny Pa Rifnod bynnag a fyddo yno, ſhoſoger a 2.

Yr achos Cyſſylltu 1 am 5 yw, oblegid mae .05 o Bunt yw Sŵllt; Canys $\frac{1}{20}$l. yw 1 Sŵllt; yna hanner yr hyn yw .05, raid fod yn 1 Sŵllt.

Yn olaf eich Cyfrifiad o'r Ail a'r Trydydd lle, oddiwrth y gwahanydd yn ffyrlingau yw, am fod yn agos i 1000*ſ*. mewn punt, ſef, 960: Felly 1000 fydd ormod o 40; 500 yn ormod o 20; 250 yn ormod o 10; 50, yn ormod o 2; 25 yn ormod o 1 Ffyrling; Felly y Cyfrifoch am 13 hanner Ffyrling, bwrw ymaith 1 am 13, a 2 am 38, a fydd yn ddigon cywir.

Siamplau

Slamplau.

5. Pa faint yw .761 o Lathen ?

3

Tro. 2.283

12

Mod. 3.396

3

Gro. haidd 1.188

6. Pa faint yw .9595 o Droedfedd ?

.9599

12

Mod. 11.3140

4

Chwarter 2.0560

III. I Ddadchwelyd *Arian*, *Pwyſau*, a *Meſurau*, &c. yn *Ddegrannau*.

Cyf. XLVIII. Cyſſylltwch nifer gymhedrol o wagnodau at yr enw lleiaf, (gan wahannu rhyngddynt a'r Rhifnod, a'u Cyfrannu a'r hyn a gynnwys yr enw neſaf;) yna dygwch y Nifer arall i lawr, gan ei rhôi o'u blaen, a gwahanydd ar ei hôl; a'u Cyfrannu a'r Enw neſaf, hŷd oni ddelont i'r Nifer lleiaf: Yna y *Cyfran* olaf yw Degrannau.

Simplau.

7. Beth yw Degrannau 14s. 6¾d ?

4) 3.0000

12) 6.75000

2,0) 14.5625,0

Ateb 728125

Yma yn ol y Rheol Cyſſylltaf wagnodau, at y 3 ffyrling i'w Cyfrannu a 4; yna Rhôf y 6d. o'u blaen yn y Cyfran, i'w Cyfrannu a 12, yn olaf rhôf y 14s. o'u blaen yw Cyfrannu a 20, neu 2, heb dorri ymaith ddim o'r Cyfrannjad: Er prawf o hyn gwelwch y Siampl. 2 yn ol y *Cyf.* 36.

8. Bydded 6d. yw Ddadchwelyd yn Ddegrannau o Bunt ? *Ateb* .025

24,0,)600,0(.025

480

1200

1200

Yma Cyſſylltaf 3 Gwagnod at y 6d. i'w Cyfrannu, a 240 y Ceiniogau mewn Punt, ac *Cyfran* yw y Degrannau gofynnedig.

Rheolau

Rheolau i gael Degrannau, Sylltau, Ceiniogau a ffyrlingau, at Bunt.

1. Am Sylltau cyffylltwch wagnodau attynt, a Chyfrennwch ag 20.

2. Am Geiniogau cyffylltwch wagnodau, a Chyfrennwch ag 240, y Ceiniogau mewn Punt.

3. Am Ffyrlingau cyffylltwch wagnodau, a Chyfrennwch a 960.

IV. I Gael Degrannau Sylltau, Ceiniogau, &c. ar olygiad.

Cyf. XLIX. Os bydd y Sylltau yn Union, cymerwch ½ am y Degran cyntaf; ac os byddant yn llai na 25 Cyffylltwch atto: ond uwch 25, rhowch hwy yn fwy nag y byddont o 1, ac os byddant uwch 38 Chwanegwch 2 attynt, hynny fydd y Degrannau yn agos: Gwelwch yr achos ar ol y Siampl. *Cyf.* 47.

9. Pa faint yw Degrannau 7s. 6½d.?

s.	*d.*	
14	6½	Yma meddaf ½ 14 yw 7, yr hwn a roddaf ar lawr; 6*d.* a ½ yw 27 o ffyrlingau, am eu bod uwch 25 rhôf 1 i'w gwneuthur yn 28 i'w rhôi wrth y 7: Gwelwch brawf o'r Siampl hon *Cyf.* 48.
728		

Cyf. L. Pan fyddo y Sylltau, yn od, Lliofogwch hwy a 5; yna dygwch y Ceiniogau, yn Ffyrlingau fel o'r blaen: ond rhowch y Rhifnod cyntaf dan yr Ail o Ddegrannau Sylltau, ond eu mawrhau fel o'r blaen cewch y Degrannau.

10. Beth yw *Degrannau* 17*s.* 6½*d.*?

17 a Lioſoger a 5 yw 85
6*d.* a ½ ac ffyrling yw 28

Attob .878

11. Beth yw Degrannau 3, 6, a 9. Modfedd, wrth Droedfedd Gyfanrif?

12)3.00	12)6.00	12)9.00
Attob .25	.5	.75

Nid

CYSSYLLTIAD DEGRANNAU.

NID oes dim Gwahaniaeth rhyngddynt â'r Cyſſyllti-ad Rhifedi Cyfan, ond cymmeryd gofal am roi y Degau tan Ddegau, Canrhannau dan Gantoedd, yn ſyth yr oehr neſaf i'r Rhifedi Cyfan; gan dorri yn Ddegrannau, wrth Gyſſylltu yr un faint ag a ſ'o yn y mwyaf, Megis y canlyn.

Siamplau.

.4351	47.136
.0069	1.5
.75	10.004
1.1920	58.640

LLEIHAD DEGRANNAU.

Benthyccwch a Thelwch yn y Rheol hon megis y Rhifedi Cyfan, gan ymwrthod a Gwagnodau ar y llaw Ddehau, megis y canlynol.

Siamplau.

Allan o	47.075	.7	5.25
Cymerwch	15.51	.275	.984
Gweddill	31.565	.425	4.266
Profiad	47.075	.7	5.25

LLIOSOGIAD DEGRANNAU.

Yr hwn ſydd gyffelyb i'r Lliofogiad arall, ond rhaid torri ymaith o'r Cynnyrch yn Ddegrannau, gynnifer ag a fyddo yn y Lliofogaeth a'r Lliofogydd heſyd, ac oni bydd cymmaint, gwnewch eu Rhifedi i ſynu a Gwagnodau, ar y llaw aſſwy iddynt, hwy elwir Degrannau.

Bydded 79.25 i'w Lliofogi a .459?

.459

71325
3.9625
31.700

36.46575.

Am fod 2 Degrannau yn y Lliofogaeth a 3 yn y Lliofogydd, gwahanaf 5 yn Ddegrannau o'r Cynnyrch.

Y Rheol

Y Rheol hon a wneir ſel y Cyfranniad cyffredin, ond yn fwy dyrus na'r lleill, er hynny deallir hi wrth ſylwi ar y Nôdau canlynol.

Nôd. 1. Pan fyddo mwy o Ddegrannau yn y Cyfrannedig, nag y ny *Cyfrannwr*, yna ('n ol gorphen y gwaith) gwahanwch ymmaith yn y *Cyfran* ag wnel y a diffyg i fynu, rhaid i'r *Cyfran* yn waſtad, gael yr un faint o Ddegrannau a'r Cyfrannedig.

Nôd. 2. Os bydd mwy o Ddegrannau yn y *Cyfrannwr* na'r Cyfrannedig (cyn dechreu'r Gwaith) Cyffyllwch Wagnodau, at y Cyfrannedig a'i gwnelo yn ogyfuwch a'r *Cyfrannwr*, ac yna ewch ymlaen.

Nôd. 3. Pan ddigwyddo fod y Degrannau, yn y *Cyfrannwr* a'r *Cyfran* (yn ol gorphen y gwaith) yn llai na'r Cyfrannedig yna rhowch gynnifer o Wagnodau o flaen y *Cyfran* ag a'i gwnelo yr un faintioli.

Siamplau.

5)47.3476	12)63.00	12)065
Atteb 94.695	.525	.00525
Gwel Nôd. 1.	Gwel Nôd. 2.	Gwel Nôd. 4.

Yr un modd y gwneir y *Cyfranniad ſûr* am Arian, a phethau eraill, er mwyn eael lle i ymdrin a phethau mwy buddiol i'r cyffredin bobl, mi a'u gadawaf heibio yn bresenol, ac âf i rôi addyſg ynghylch amryw FESURAU; ond cyn antirio iddo, mae'n angenrhaid gwybod y modd i gael Yſgwâr pethau yn gywir, heb yr hyn, ni ddichon neb feſur dim yn gywir.

DOSP. XII.

Tarddiad o WREIDDIN YSGWAR.

PAN roddir un rhyw Riſedi, megis 2 yr hwn wedi ei Lliofogi ag ef ei hun a wna 4; yna y 4 elwir Yſgwâr, a'r 2 yn wreiddin iddo ef, Canys o honno y mae 7 4 yn tarddu allan: Felly Lliofogwch 6 a 6 'ſgwarau yw 36, a'r Gwreiddin yw 6: Er eglurd hyn yn well, rhoddaf Wreiddin Yſgwâr, pob Rhif Unigol, a'u Cyfrwu ochrau, yn y Tabl Canlynol.

Gwnaidd

TABLE.

Gwraidd	1	2	3	4	5	6	7	8	9
Yſgwarau	1	4	9	16	25	36	49	64	81
Cyflawn ochrau	1	8	27	64	125	216	343	522	729

CYP. LI. Pan roddir un rhyw Rifedi, i geiſio Gwreiddin eu Yſgwâr, Nôdwch uwch ben lle'r Unau a'r Cantoedd, felly bob ail Rhifnod; yna ceiſiwch yr Yſgwâr ſwyaf yn y Nôdiad, neſaf i'r llaw aſſwy, gan eu rhôi dano, a'r Gwreiddin yw'r *Cyfran*, Lleihewch yr Yſgwâr allan o'r Nôdiad Cyntaf, ac at y gweddill, dygwch i lawr y Nôdiad neſaf, a geiwch ef Cyfranſa: Yna dyblwch y *Cyfran*, a rhowch hwy, ar y llaw aſſwy i'r gyfranſa, yn *Cyfrannwr*, ac ymofynwch Pa ſawl gwaith cair y *Cyfrannwr* newydd, yn y Cyfranſa (gan adel yr unau heibio) a rhowch yr Atteb yn y *Cyfran*, ac hefyd tu dehau i'r *Cyfrannwr*, yna Llioſogwch hwy a'r Rhifnod olaf yn y *Cyfran*, Lleihewch y Cynnyrch o'r Cyfranſa dygwch y Nôdiad arall (os bydd) at y Gweddill a gwnewch fel o'r blaen.

1. Bydded 4489 gael eu rhoddi i gael Gwreiddin eu Yſgwâr?

4489	67	67
36		67
127) 889	Cyfranſa	469
889	Cynnyrch	402
...		Profiad 4489

Gwedi Nôdi uwch ben pob Ail Rhifnod yn ol y *Cyf.* Edrychaf, am yr yſgwâr Rîf mwyaf, yn y Nôdiad cyntaf, 44, a deallaf, mae 36 yw 'ſgwâr a 6 yw'r gwreiddin yr hwn rôf yn y *Cyfran* yna tynnaf 36 allan o 44 chaf yngweddill 8, at yr hwn y dygaf y *Nôdiad* 89 i lawr, 889 yn gyfranſa; yn dyblaf y *Cyfran* 6 yn 12, i'w oſod

i'w oſod ar y llaw aſſwy i'r Gyfranfayn *Gyfrannwr*; goſynaf Pa ſawl 12 ſydd mewn 88, (gadawaf heibio yr Unau) yr Atteb yw, mae 7, yr hwn a roddaf yn y *Cyfran*, ac ar ol y 12 yn y *Cyfrannwr* newydd Lliooſogaf yr 127, a'r 7 y *Cyfran*, a'u Cynnyrch yw 889 i'w tynu allan or Cyfranfa, ac ni bydd dim gweddill: Felly Gwraidd yſgwâr 4419 yw 67, yr hyn a brofir wrth Lioſogi 67 a 67 eu cynnyrch, ſydd, yr un a'r Rhif, Roddedig.

2. Beth yw Gwreiddin Yſgwâr 56169?

	56169(237		237
	4		237
43)	161		1559
	129		711
467)	3269	Cyfranfa	474
	3269	Y Prawf	56169

Gwedi Nôdi y Rhifnodau fel o'r blaen, y Gwreiddin neſaf a gâf yn y Tabl yw 2, yr hwn a Yſgwariaf ac a oſodaf dan y 5, a châf yn weddill 1 at yr hwn y dygaf y Nôdiad 61, i wneuthur 161: yna dyblaf y Gwreiddin 2, yn 4, ac a'i goſodaf yn *Cyfrannwr* newydd. Ymoſynaf, Pa ſawl gwaith y câf 4 mewn 16 yr Atteb 4, etto wrth eu trin y maent yn ormod, (megis y byddant yn fynnych yn y rheol hon) cymmeraf 3 a rhôf yn y *Cyfran*; ac wrth ochr y *Cyfrannwr* yn 43; yna Lliooſogaf hwy a'r 3au cynnyrch yw 129 i'w *Lleihâu* o'r 161, y gweddill yw 32, yna dygaf i lawr y 69, hwy wnant 3269. yn Gyfranfa newydd: Dyblaf y Gwraidd 23, yr hyn yw 46 yn gyfrannwr newydd ymoſynaf Pa ſawl gwaith y câf 46 mewn 326, (gan baſio'r unau) a châf 7 yr hwn a rôf yn y *Cyfran* ac yn *Cyfrannwr* hefyd, yna Lliooſogaf y *Cyfrannwr* a 7, a'u Cynnyrchyw 3259. Felly gwelwch mae 237 yw Gwreiddiol Yſgwâr 56169, Gwelwch y profiad ar eu gyfer.

Cyf. LII.

Cyf. LII. Pan fyddo eiſiau gwybod Canol-rif perthynaſol rhwng Dau Riſedi, Lliofogwch y naill a'r llall, yn un Cynnyrch, yna gwreiddin eu Yſgwâr yw y Rhifedi a ofynwyd: gan Gyſſyllu gwagnodau ar y gweddill (os bydd) megis y *Cyf.* olaf, i gael y Rhannau.

3. Beth yw'r Canol-rif Cymmwys rhwng 46 a 62?

62
46

372
248

2852(53.4 *Atteb.*
25
---
103) 352
309

1064)4300
4256

Gweddill 44

Siamplau i'w gweuthur yr un modd.

Y Canol-rif Cymwys rhwng. { 32 a 46 / 49 a 82 / 47 a 64 / 30 a 50 } ydyw 38.36 / 63.39 / 54.85 / 38.7

4. Gŵr mwyn a roes gennad yn waſtad ar ſiars,
I'ŵ *Gâr* ddodi *Geffyl*, yn ſyfyl mewn *Gwaſg*;
Pa hŷd rhoir y *Cortyn*, Dywedwch i hwn,
Na chyredd y *Ceffyl*, ond Acr yn grwn.

Megis 1 : 1.2732 Cylch-Rif : : 43560 Troedfeddau mewn Acr. yna 1.2732 × 43560 = 55468.9920. √ = 235.5 ÷ 2 = 117.75 Tro. 9 Mod. 11.30 Cottyn.

5. Gan Wr yr oedd *Odyn*, ac arian yſbâr,
Un droedfedd ar bymtheg chwe' modfedd yſgwâr:
Pa faint raid ei ehengi, mynegwch mewn pryd,
I grafu ar un waith, Dri chymmaint o Yd?

Yr hên Odyn. 16.5 × 16.5 = 272.25 × 3 = 816.75 √ = 28.57 Tro. 6¾ Mod. Yſtlus yr Odyn newydd.

6. Bydded Amgylchiad yn cynnwys 4276.5 o feſur Arwyneb. Dymunaf wybod hŷd ochr Yſgwâr Arwyneb i gynnwys yr un faintioli?

√ 4276.5 = 65.395 Yſtlus Yſgwâr gymmwys, i gynnwys yr un faint: yn Llathenau neu Droedfeddau.

7. *Bwrdd* bychan crwn hwylus yn gymmwys a gaed,
Tair Troedfedd chwe' modfedd cywiredd y gwnaed,
'D yw'r Wraig yn ei hoffi, ond berwi mewn bâr:
Pa faint pan ei torrir, ſydd gywir ei 'Sgwâr.

Y Rhîf ſefydledig i wneuthur Crwngylch yn Yſgwâr yw .7071 × 42 = 29.69 Mod. Yſgwâr y Bwrdd.

8. Beth yw Yſgwâr gywir Acr o Dîr; yn llathenau, Troedfeddau, Modfeddau, a hŷd Gronyn haidd?

5280(72,663
49

142)380
284

1446)9600
8676

14526)92400
87156

145323)524400
435969

88431

Y Degrannau .663
3

1,989
12

1978
989

11.868
3

2.604

Ll. T. M. G.h.
Atteb 72 1 11 2½

DOSP.

DOSP. XIII.

Extraction of CUBE ROOT.

Tarddiad o WREIDDIN CYFLAWN OCHR.

CYFLAWN OCHR vw darn o Bren, yn cynnwys Tri Meſur, ſef, Hŷd, Llêd, a Dyfnder, fel Dis, a chanddo chwe'ochr gymmwys Yſgwarau: Gwreiddin Cyflawn ochr yw y Rhîf a Lloſogir ag ef ei hun; a'r Cynnyrch hynny a'r un Rhif drachefn: Fel hyn, 3 gwaith 3 yw 9, a 3 gwaith 9 yw 27; gan hynny 3 yw Gwreiddin, Cyflawn ochr yw 27. Gwelwch y Tabl yn Talfyriad Gwreiddin Yſgwar.

Cyf. LIII. Pan roddir Rhifedi, i geiſio gwybod Gwreiddin ei Gyfanochr. Nodwch uwch ben pob Trydydd Rhifnod, gan ddechreu yn yr unau a chyn hifer ag a fo'r *Nodiadau*, raid bod o Rhifnodau yn y Gwreiddin; yna edrychwch y Tabl, am y Cyflawn ochr neſaf, a fyddo llai na'r Nodiad neſaf i'r llaw aſſwy. Rhowch hwy dan y Nodiad, a'r Gwreiddin yn y *Cyfran*, a Lleihewch y Cyflawn ochr o'r Nôdiad. Yna at y gweddill dygwch y *Cyfran*, a Llioſogwch a 300, a rhowch yn *Gyfrannwr*, ac edrychwch, pa ſawl gwaith y ceir ef yn y Gyfranſa, yr hyn a roddwch yn y *Cyfran*. Llioſogwch y *Cyfrannwr*, a Rhifnod olaf y *Cyfran* a'u rhôi dan y Gyfranſa, a llinell rhyngddynt. Yſgwariwch y Rhifnod olaf a'r cyntaf yn y *Cyfran*, a Llioſoir y Cynnyrch hynny a 30, i'w rhôi dan y gwaith olaf unau dan unau, &c. Yna Cyflawnochrwch, y Rhifnod olaf, a rhowch yn drefnus dan y lleill; i'w Cyſſylltu ynghyd a'u galw Lleihedydd, os byddant yn ſwy na'r Cyfranſa, rhaid rhôi Rhifnod llai yn y *Cyfran*, gan weithio fel o'r blaen, os bydd yn llai na'r *Cyfranſa*, y gwaith a orphenwyd; oni bydd Tri Rhifnod yn y Gwreiddin, ac os bydd, dygwch y *Nodiad* arall i lawr, ac yſgwariwch y gwreiddin oll a Llioſogwch a 300, yn Gyfrannwr newydd, gan rôi Rhifnodau yn y *Cyfran* a'u 'ſgwario, a'u Llioſogi megis o'r blaen.

Siamplau

1 Beth yw Gwreiddin Cyflawn ochr 32768?

32768(32 *Atteb.*
27

Cyfrannwr 2700) 5768 Cyfranfa

5400
360
8

5768 Lleihedydd.

Gwedi nôdi yn ol y *Cyf.* uwch ben 8 a 2: Ceifiaf o'r Dablen, y Cyflawnochr mwyaf mewn 32, ſef 27 i'w tynnu allan, câf yn weddill 5, at yr hwn y dygaf y nôdiad arall i lawr i wneuthur 5768. Yna yr Yſgwariaf y 3 yn 9, yr hyn 300 o weithiau yw 2700. Yna yſtyriaf, Pa ſawl gwaith y câf hwynt, yn y Gyfranfa, ſef 2, yr hwn a roddaf yn y *Cyfran*, a'r Cynnyrch dan y Gyfranfa: yna yſgwariaf 2 y *Cyfran* yn $4 \times 3 = 12 \times 30 = 360$ i'w goſod dan y lleill. Yna Cyflawnochraf y 2 yn 8 i'w Cyſſylltu ynghyd. Felly y Lleihedydd, ſydd yr un a'r Gyfranfa, Am hynny mae'n gywir.

Profiad y Swm uchod $32 \times 32 = 1024 \times 32 = 32768$.

2. Beth yw Gwreiddin Cyflawn ochr 157464?

157464(54
125

7500) 32464 Cyfranfa.

30000 Cyn. 4 gwaith y *Cyfrannwr*.
2400 Yſg. 4 Lliof. a 5 a'r cyn. a 30.
64 Cyflawn ochr y 4 *Cyfran*.

32464 Leihedydd yr un faint a'r Gyfranfa.

Gwedi

Gwedi Nodi uwch ben, edrychaf beth yw Rhifedi neſaf at 157 y Nodiad cyntaf, deallaf mae 125. Lle y gwelaf mae eu gwreiddin yw 5 yr hwn a roddaf yn y *Cyfran*, a hwythau yn eu lle i'w Lleihau o'r Nôdiad Cyntaf, yna tynnaf y Nôdiad arall i lawr, a hwy a wnant 32464. Yna yſgwariaf 5 y gwreiddin, a Lliooſogaf a 300, hwy wnant 7500, y rhai alwaf *Cyfrannwr*; yna yſtyriaf, pa fawl gwaith y câf y *Cyfrannwr* yn y Cyfranſa; a deallaf mae 4, yr hwn a roddaf yn y *Cyfran*, i Lioſogi y *Cyfrannwr* yr hyn yw 30000. Yna Yſgwariaf y 4 yn 16, a Lliooſogaf y Cynnyrch a'r 5 *Cyfran*, a'r *Cyfran* hynny a 30, câf 2400 i'w rhôi dan y lleill, yna Cyflawnochraf y 4 yn 64 i'w Cyſſylltu yng-hyd yn un Swm dan enw Lleihedydd: Gwelwch y Siampl uchod.

3. Beth yw Gwreiddin Cyflawn ochr 75686967?

75686967(423
64

4800)11686 Cyfranſa.

9600	Cyn. y *Cyfrannwr* a 2.
480	Cyflawn ochr 2 Llioſ. a 30.
8	Cyflawn ochr 2.
10088	Lleihedydd i'w dynnu allan o'r Cyfranſa uchod.
1598967	Cyfranſa newydd.
1587600	Cyn. y *Cyfrannwr* a 3.
11340	Cyfl. 3 Lioſ. a 42 a 30.
27	Cyflawnochiad y 3.
1598967	Lleihedydd newydd i'w dynnu o'r gyfranſa newydd.

Cyf. LIII. Pan roddir Telpyn Crwn, ei lêd a'i Bwyfau, i ofyn pwyfau un arall. Y Rheol yw, megis y mae Cyflawnochr Llêd y Bwled Rhoddedig i Gyflawnochr y Gofynedig; Felly y mae *Pwyfau* y Bwled Rhoddedig i'r Gofynedig. Cyflawn ochr 4 yw 64. a Chyflawn ochr 8 yw 512. Yna (yn ol *Eucl.* 12. 18.)

Siamplau

1. Bydded Bwled yn 4 Modfedd ei ddyfn, a'i bwys yn 9 o bwyfa: Dymunaf gael gwybod pwyfau Bwled arall 8 Modfedd ei Ddyfnder?

	lb.			lb.
Megis 64	: 8	::	512	: 62.437
			8	
			64) 4096	(62.437 *Atteb.*
			384	
			156	
			128	
			280	
			256	
			240	
			192	
			1480	
			448	
			32	

lb. oz. dr.
Atteb 62 6 3, &c.

2. Mi gefais gan *Gowper* wneud Lleftr yn grwn
Un Modfedd ar Bumtheg, oedd Dyfn, a Llêd, hwn
Dywedwch Wŷr mwynlan, Pa gyflawn yfgwâr,
All ddal 'run faint ynddo, Heb eifio na 'fbâr.

5.6 × 5.6 = 42.25 ÷ 807. 86 = 1 Tro. 7.12.
Mod. Ei Gyflawnochrau cf.

3. Os-

3. Os Gŵr ar lann *Afon*, a leſa fel Draig,
Ac ar y lann arall ryw Gaſt, lleu graig:
O'r Graig mewn Tri Ailiaid, daeth adlais (mae cred)
Pa faint oedd yr Afon, wyr mwynion o Lêd.

Yn ol Syr I. Newton, y ſŵn a rêd 1142 Tro. mewn Ailiaid (yn ol eraill 1150) Gan hynny, 1142 × 3 =3426÷2=1713÷3=571 Tro. 1 Mod. Sef, lled yr Afon.

DÒSP. XIV.

Buddioldeb y Rheden Feſuraidd.

Y Riwl hon ſy'n cynnwys Tair Llinell: un elwir *Gunter* a Nôdir ag A. y llall elwir *Slider* Nôdir a B. y llall a nôdir a D. Y cyntaf a'i gwnaeth oedd y celfyddgar Mr. *Everard*, yr hwn hefyd, a'i heglurodd yn helaeth: ond gall y Llyfr hwn ddyſod i ddwylaw Cymry un iaith: Rhôf ychydig addyſg yn ei chylch, y Rhifnodau ſy'n rhedeg o 1—10 ac o hynny hŷd 10 eraill. yr un llinellau ſydd ar yr Arwyneb (Flat) nôdir A. ac ar y Rheden (ſlide) Nôdir B.

1. Am Rifyddiaeth yn y Llinellau, Pa chw bynnag a roddir i 1 yn y dechreu, yr 1. canol ſydd yn Ddeg cymmaint, *&c.* Os cyfrifwch y Rhifnodau yn Ddegau, yna y Rhannau mwyaf yn unau; ond os cyfrifwch y Cyntaf yn Filoedd y Rhannau mwyaf ſyddant Gantoedd a'r Rhannau lleiaf yn unau, *&c.*

Siam. I gael lle 25. Gelwch y 2 canol yn 20, yna cyfrifwch 5, o'r Rhannau mwyaf, hynny yw 25. Os gelwch y 2 canol yn 200; yna mae 25 yn 250, Os cyfrifwch eu lle yn 2000, bydd lle y 25 yn 2500. Cymmerwch yr un a fynnoch o'r llinellau, a'i A. a'i B.

Siam. Dymunaf gael lle 1728. ar y Riwl?

Am y Rhifnod 1, cyntaf cymmerwch y canol; am yr Rhifnod 7, Cyfrifwch ymlaen 7, o'r Rhannau mwyaf, yr hwn yw 1700: Yna am 2, y Trydydd Rhifnod cymmerwch 2 o'r Rhannau lleiaf; yn olaf am 8, cymmerwch yn agos i'r Rhan arall. Y cyfryw ſan yw 1728.

Megis

2. Am y Llioſogiad, y Rheol yw,

Megis mae 1. i'r Llioſogydd, felly y mae'r Llioſogaeth i'r cynnyrch.

Rhowch y Rhîf cyntaf 1, ar B. Yr ail Rîf, a geiſiwch ar A. Yna ceiſiwch y Trydydd, ar B. ac ar ei gyfer, cewch y Cynnyrch.

Siam. Pa faint yw 9 gwaith 12? *Atteb* 108.

Rhowch 1. ar B. ar gyfer 9 ar A. yna ar gyfer 12 ar B. cewch 108 ar A.

Nodwch fod y Riwl yn dangos, Pa Rhifnodau a ddylai fod y Degau, a'r Cantoedd; ond am yr unau (weithiau) bydd amheuath; gan hynny i fod yn ſiccir, Llioſogwch unau y Llioſogydd ac unau'r Llioſogaeth: megis uchod 2 waith 9 yw 18, felly deallaf mae lle'r unau yw 8.

Siam. Beth i'w Cynnyrch 24. wedi eu Llioſogi a 18?

Rhowch 1 ar B. ar gyfer 18. ar A. yna ar gyfer 24. ar B. cewch 432. ar A.

Dichon fod yn anhyſpus gan rai, Pa ſawl Rhifnod a ddylai fod yn y Cynnyrch; er egluro hyn deliwch ſulw Pa ſawl Rhifnod uwchlaw unau ſydd yn y Llioſogaeth a'r Llioſogydd; am bob un ſy'n y ddau (uwchlaw unau) cyfrifwch un Rhifnod i'r Cynnyrch, ac am unau y ddau cyfrifwch 1. yn 'chwaneg: ac os na cheir y Rhîf ar yr anrhyw Reſa, cyfrifwch yn 1. dracheſn: Felly cynnyrch a gynnwys 4 Rhifnod. Yr hyn ſydd gymmaint a ellir eu deall ar y Sliding Rule leiaf.

3. Am y Cyfranniad y Rheol yw,

Megis y mae'r *Cyfrannwr* i 1, Felly y mae'r Cyfrannedig i'r *Cyfran.*

Siam. Cyfrennwch 64ſ. Rhwng 4 o Wŷr?

Rhowch 4 ar A. gyferbyn ac 1. ar B. Yna ar gyfer 64 ar A. cewch 16 ar B. yr hyn yw'r *Atteb.*

Siam. Cyfrennwch 336, Rhwng 12 o Wŷr?

Rhowch 12 ar A. gyferbyn ac 1. ar B. yna ar gyfer 336 ar A. cewch 28 ar B. Neu,

Rhowch 12 ar B. gyferbyn ac 1. ar A. yna ar gyfer 336 ar B. cewch 28 ar A.

4. Am y

4. Am y Torriadau a'r Degrannau y Rheol yw,

Megis y mae'r Cyfenwydd, y Torriadau, Rhoddedig i'r Rhifydd; Felly y mae 1 i'r Degrannau Gofynedig.

Siam. Dadchwelwch $\frac{3}{4}$ (Torriad cyffredin) yn Ddegrannau?

Rhowch 4 ar *A.* gyferbyn a 3 ar B. yna ar gyfer 1 ar A. cewch .75 neu $\frac{75}{100}$ ar B. yr hyn yw gwerth $\frac{3}{4}$, Deallwch am eraill yr un modd.

Siam. Beth yw Degrannau 18 Swllt, wrth Bunt Gyfanrif?

Y Torriad yw $\frac{18}{20}$, gan hynny Rhowch 20 ar B. gyferbyn ac 1. ar A. yna ar gyfer 18 ar B. cewch 9 ar A. yr hyn yw y Degran a ofynwyd.

Siam. Pa faint yw .27 o Bunt Lloegr?

Rhowch 1. ar A. gyferbyn ag 20 ar B. yna ar gyfer 27 ar A. cewch 5.4 yr hyn yw 5 Swllt a 4 Degfed ran o Swllt.

2. Rhowch 1 ar A. gyferbyn a 12 ar B. yna ar gyfer 4 ar A. cewch 4.8 ar B. yr hyn yw 4d. ar 8 Degfedran o Geiniog.

3. Rhowch 1. ar A. gyferbyn a 4 ar B. yna ar gyfer 8 ar A. cewch 3.2 ar B. yn hyn yw 3 ffyrling a 2 Ddegfed o ffyrling. Felly gwelwch mae .27 o Bunt yw 5s. 4d. 3q. a 2. Ddegfed o un arall.

5. Am Reol y Tri Cyfeiriol, y Rheol yw,

Megis mae y Rhif cyntaf, i'r Ail, felly y mae'r Trydydd i'r Pedwerydd.

Siam. Os 5 Llâth o Frethyn gyst 10 Swllt Beth yw pris 15 llâth o'r un peth?

Rhowch 5 ar A. gyferbyn a 10 ar B. yna ar gyfer 15 ar A. cewch 30s. ar B.

Siam. Os bydd Llêd Crwngylch yn 7 Modfedd, a'i Amgylchiad yn 22 Modfedd; Beth fydd Amgylchiad un arall fo'n 14 Modfedd ei Lêd?

Y Ber-

Y Berthynas fydd; megis 7 i 22, felly mae 14 i'r Amgylchiad gofynedig.

Rhowch 7 ar B. gyferbyn a 22 ar A. yna ar gyfer 22 ar B. cewch 44 ar A. yr Amgylchiad uchod.

N. B. Y Rheol ydyw, os bydd y Trydydd Rhîf yn fwy na'r cyntaf; yna rhaid i'r Pedwerydd Rîf fod yn fwy na'r Ail: ond,

Os bydd y Trydydd yn llai na'r Cyntaf, yna rhaid i'r Pedwerydd fod yn llai na'r Ail.

6. Am Wreiddin Yfgwâr, y Rheol yw,

Y Rheol hon fy'n fefyll, ar *(Euclid's Elements)* Rhowch y 10 ar y llin D. gyferbyn a'r 1. ar llin C. yna bydd y Riwl megis Tabl yfgwariau, a'u Gwreiddau; canys ar gyfer unrhyw yfgwâr ar C. cewch y Gwreiddin ar D.

Siam. Talfyrwch wreiddin yfgwâr 64?

Rhowch y Degau ar gyfer eu gilydd, megis uchod; yna gyferbyn a 64, (yn y Rhesfa nefaf i'r llaw affwy) ar C. cewch 8 ar D. y Gwreiddin yfgwâr gofynedig.

Nôdwch y gellir cael gwreiddin yfgwâr a fynnoch heb fynnud yr fliding o'i lle. Megis ar gyfer 400 cewch 20, ac ar gyfer 900 cewch 30, *&c.* Yr hyn yw eu gwreiddiol yfgwâriau.

7. I gael Canol Rifedi Cymmwys.

Rhowch un o'r Ddau Rifedi, ar C. wrth yr unrhyw ar D. Yna gyferbyn a'r Rhifedi arall ar C. cewch y canolrîf a ofynwyd ar D.

Siam. Beth yw'r canol-rîf rhwng 9 a 25?

Rhowch 9 ar C. ar gyfer 9 ar D. yna gyferbyn a 25 ar C. cewch 15 ar D. Y canol-rîf, a ofynwyd.

Nôda, nad ydyw yr Sliding Rule gyffredin yn cynnwys, arni, i gael Gwreiddin Cyflawn ochr, ond rhag i'r Llyfr hwn ddyfod i ddwylaw rhai fy'n ei meddiannu. Y Rheol yw:

Rhoi y Llinellau E. a D. yn gymmwys i. e. 1 yn nechreu Llin E. wrth 1 yn nechreu Llin D. Yna gyferbyn a Chyflawn ochr ar E. Cewch y Gwreiddin ar D.

8 Am

8. Am brynu a gwerthu wrth y Sliding Rule.

Siam. Beth a gŷſt 60 Pwys o Ymenyn, am 4½*d.* y Pwys?

Rhoweh 4 a hanner ſef, dimmeu, ar y Rheden (ſlide) nôdir B. ar gyfer 12 ar A yna ar gyfer 60 ar A. cewch 22½ ar B. ſef, 22s. a 6d. Gellwch weled Prîs y Nifer a fynnoch o *Bwyſau*, am yr un brîs, heb ſymmud y Rheden o'i lle.

Siam. Os prynnaf bâr o Sana, am 1s. 9½d. Beth a gŷſt 20 Pâr am yr un brîs?

Rhowch 2½ ar B. ar gyfer 12 ar A. yna ar gyfer 20 ar A. cewch 35s. ar B.

I gael Degrannau Troedfedd ar y Sliding Rule.

Gwedi gwybod y Modfeddau a'u rhannau, cyfeiriwch eich llygaid i'r ochr pellaf i'r Rule, gyferbyn a'r rhan o Fodfedd, cewch y Degran perthynnol, neu'n agos iddo ef: Gan nad yw y Degrannau 'n union atteb i rannau Modfeddau, eithr y 3, 6 9, a ddylant atteb i 25, 50, a 75 Gwell cymmeryd yn brinnach, na helaethach. Y mae y ffordd hon yn eſmwythach i'r côf; na llioſogiad Troedfedd, a Modfeddau. Y ffordd ſwyaf cyffredin yn breſennol i'w rhannu Llathen yn 100 o rannau 'run moddion a'r Degrannau ar ochr y Droedfedd; yr hon, a elwir canrhif Llathen (Decimal Yard) a'i Rhifnodi, 10, 20, 30, &c. A rhôi Pum' rhic yn hwy: a goſod y Modfeddau ar yr ochr arall, a'u rhannau; nid yw'r Modfeddau 'n atteb i'r Degrannau 'r Llathen, mwy na'r Sliding Rule, ond tair gwaith, ſef, 25, 50, a 75. Rhoddaſwn ddarluniad o honi: oni buaſai fod hŷd y ddalen, yn rhŷ ferr i'w chynnwys.

DOSP. XV.

Menſuration of SUPERFICES.

Arwynebiad ydyw pob peth, a Feſurir heb ddal dim ſylw, o'i ddyfn, ond ei hŷd a'i led yn unig.

§ I. Am YSGWAR.

YSGWAR ſydd *Lun* Pedwar ochrog yr un faintioli i'w feſur ef y Rheol ydyw: Llioſogwch y naill Ochr a'r Hall, y cynnyrch yw ei gynnwyſiad ef.

Hydded

Bydded A B C D yn Yſgwâr i'w Meſur, a phob ochr yn 15 *Palaid, Llatheni, Troedfeddi*, neu *Fodfeddi*, neu ryw feſurau eraill. Yr hyn wedi Lliofogi y naill ochr a'r llall a gynnwys 125. Megis y gwelwch iſod.



15
15
75
15
125
15
Wrth Slid. Rule. Rhowch 1 ar B. ar gyfer 15 ar A. yna ar gyfer 19 ar B. cewch 225 ar A. megis uchod

Bydded ſod yr yſgwâr uchod (heb gymmeryd ſylw o'r gwahaniaeth bychain) yn 7 droed. a 6 mod. Pa faint yw'r arwynebiad?

	Tro.	Mod.	Rh.
	7	6	0
		7	6
	3	9	0
	52	6	0
Attеb.	56	3	0

	Tro.
AB =	7.5
CD =	7.5
	375
	525
	56.25

Rhoddais

Rhoddais addyſg ddigonol i wneuthur y Swmau hyn, yn y Lluoſogiad Troedfeddau, a Modfeddau, a'r Degrannau.

§ II. AM YSGWAR HIR.

YR Yſgwâr hon ſydd Bedair ochrog hefyd, ond bod y naill, yn fwy na'r llall; I gael ei Chynhwyſiad, Lluoſogwch yr hŷd a'r lled, a'r Cynnyrch yw'r Cynhwyſiad Arwynebiad. Gwelwch y *Llun* a'r gwaith yn canlyn.



Yr hŷd 18 Wrth Sliding Rule.
Y Lled 8 Rhowch 1 ar B. gyferbyn [illegible]
—— Yna ar gyfer 8 ar B. cewch 144 ar A.
Cyn. 144

Bydded A. B yn 10 Troedfedd a 9 Modfedd: A. C yn 2 Droedfedd. Beth yw ei gynhwyſiad?

Tro.	Mod.	R.		Tro.
10	9	0	AB =	10.75
2	0	0	AC =	2
21	6	0		21.50

Wrth Sliding Rule.

Rhowch 1. ar B. gyferbyn, â 10.75 ar A. yna ar gyfer 2 ar B. cewch 21.5 ar A.

Wrth Scâl a'r Cwmpas.

Cyrhaeddwch yn y Llinellau y Rhifedi, o 1, hyd 8, a'r un faint a hynny gewch, o 18 hyd 144 yr un peth ar Sliding Rule, a'r Rhifnodau hefyd.

N. B. Mae yr un peth yw'r Scâl, a'r Grinter ar Sliding Rule.

Eglurhâd.

Y *Llûn* uchod ellir ei gymmeryd yn *Llatheni*, neu *Droedfeddi*, &c. Mi a'i gwneuthym yn Yſgwariau bychain, er mwyn yr anneallgar, fel y gallo eu cyfrif a phen ei fŷs, cyn ammeu llawer.

§ III. Am DRIONGLOG.

TRIONGL ſydd *Lûn*, a chanddo, Dri yſtlys; y mae o honynt amryw fâth; weithiau mae pob yſtlys yr un faintioli, ac weithiau ni byddant: ond pa ſodd bynnag, y Rheol ydyw hon: Lliooſogwch y Gwaelod ADB a hanner y Sythlein DC: Neu hanner y Gwaelod a'r Sythlein oll; Neu Lioſogwch yr holl waelod a'r Sythlein, a chymerwch yr hanner yn gynnyrch: Pob un o'r tair ffordd, a ddengys ei Gynhwyſiad Arwyneb yn gywir.



15.4	Gwaelod	7.7	½ ei waelod.
7.8	Sythlein	7.8	
1232		616	
1078		539	
120.12		60.06	
60.6			

Ei waelod 15.4
½ ei Sythlein 3.9

1386
462

y Cynnyrch 60.06

Rhaweh

Wrth Sliding Rule.

Rhowch 1 ar B. gyferbyn a 15.4 ar A. yna ar gyfer 39 ar B cewch 60 a hanner ar A.

Pa un bynnag a fyddo y Triongl, a'i *Tir, Bwrdd, Gwydr, Cerrig, Talfyr Tŷ*, &c. Yr un Rheolau fydd i'w mesur; ond yn unig bod Enwau, ar yr hyn y mesurir ag ef, Megis *Tir* wrth y Palaid: Gwaith *Seiri* wrth y Llâth, Gwaith y Gwydr wrth y Droedfedd; Mi a arferais y Tair ffordd uchod, yr wyf yn meddwl ei bod y rhai hawsaf.

N. B. Mae Dau Driongl a wna Yr gwâr Megis AF. CD. Felly deallwch am y lleill yr un modd.

§ IV. GRWNGYLCH.

CRWNGYLCH, a gynhwysir, mewn un Lein a elwir amgylchiad: hwn yw yr anhawsaf ei fesur yn gywir, ond y Rheol ydyw: Lliosogwch y Lled a'r Amgylchiad a Chyfrennwch wrth 4, y *Cyfran* yw Cynhwysiad ei Arwynebiad: Neu hanner yr Amgylchiad a hanner y lled, y Cynnyrch yw'r Arwynebiad.



22.6 Y lled
7 Amg.

225
1582

4)160 4.6

40 r. 15 l. 6 c. el Arwynebedd ef.

Trefniad. 1. (Problem) Caffer Lled Crwngylch, i gael ei amgylchiad ef.

Megis 7 i 22, felly y mae'r Lled i'r Amgylchiad.

Neu megis 113 i 355, felly y mae'r Lled i'r Amgylchiad.

Neu megis 1. i 3.141593, felly y mae'r Lled i'r Amgylchiad.

Myfi a roddaf y Tri Chydbwyfiad (Proportion) Cymmer ditheu dy ddewis: y ddau olaf yw'r goreu.

Siamplau.

(1)

22.6
22

452
452
---
7)497.2(71.028

(2)

3.141593
22.6

18849558
6283186
6283186

71.0000018

(3)

355
22.6

2130
710
710
---
113)8023.0(71
791

113
113

...

Wrth Sliding Rule.

Rhowch 7 ar B. gyferbyn a 22.6 ar A. yna ar gyfer 22 ar B cewch 71. ar A.

Y Berthynas rhwng Lled Cylch a'i Amgylchiad, ni chafwyd etto yn gywir; Er i *Wyr* Dyfgedig flino llawer, Ni wnaf i yn brefenol ond arfer y Ddwy ffordd hon, am fy mod yn meddwl eu bod cyn gywired ag y gallwyd dychymyg, hyd y pryd hyn.

Eithr bernir fod y Gyntaf ychydig yn ormod, a'r drydydd yn rhy ferr.

Trefniad. 2. Caffer Amgylchiad Crwngylch, i gael ei Led ef.

Megis 1 i .318309, felly y mae'r Amgylchiad i'r Lled.

Neu megis 355 i 113 felly y mae'r Amgylchiad i'r Lled.

Neu

Neu, megis 22 i 7, felly y mae'r Amgylchiad i'r Lled.

Siamplau

(1)	(2)	(3)
.318309	113	71
71	71	7
318309	113	22)497(22.59
2228163	791	44
22.599939	355)8023(22.6	57
	710	44
	923	130
	710	110
	2130	200
	2130	198
	0	2

D. S. Os bydd yr Amgylchiad yn 1, bydd y Lled yn .318309.

Fel hyn wrth y Tair ffordd, mae y Lled yn 22.6, ond, bod y Gyntaf a'r Drydydd ychydig yn rhy fyrr.

Wrth Sliding Rule.

Rhowch 22.6 ar B. gyferbyn a 7 ar A. yna ar gyfer 7 ar B. cewch 22.6 ar A.

Trefniad. 3. Caffer Lled Crwngylch, i gael ei Gynhwyfiad ef.

Yfgwarier 22.6 a 22.6 = 510.76 Rhifedi i droi yf-
.7854 gwâr, yn Grwn-

.204304
255380
408608
357532

401.150904 Cynhwyfiad.

Trefniad 4, Caffael Amgylchiad Crwngylch i gael ei Gynhwyſiad ef.

Os bydd Amgylchiad yn 1, Cynhwyſiad hwnnw a fydd yn .07958; yna yſgwâr 1 yw 1, ac yſgwâr 71 (Amgylchiad y Crwngylch) yw 5041. Gan hynny,

.07958 Arwynebiad 1.
5041. Yſg. y Crwngylch

7958
31832
397900

401.16278 Cynhwyſiad.

Trefniad 5. Caffael y Llêd, i gael yſtlys yſgwâr î gynnwys yr un faint a'r Crwngylch hwnnw.

Os bydd y llêd yn 1, yſtlys yſgwâr, gymmwys iddo yw .8862: Gan hynny,

Megis 1 : .8862 :: 22.6 (y Llêd)
22.6

53172
17724
17724

20.02812 Yſtlys yſgwâr gymmwys iddo.

Trefniad 6. Caffael yr Amgylchiad, i gael yſtlys yſgwâr gymmwys iddo ef.

Os bydd amgylchiad Crwngylch yn 1, yſtlys ei yſgwâr a fydd yn .2821. Gan hynny,

71

2821
19747

20.0291

Trefniad

Trefniad 7. Caffael y Llêd, i gael yſtlys yſgwâr, a ellir ei Chynnwys fwyaf, yn y Crwngylch hwnnw.

Os bydd y Crwngylch yn 1, yſtlys yr yſgwâr, o'i fewn ef, a fydd yn .7071. Gan hynny,

22.6 y llêd

42426
14142
14142

15.98046 Yſtlys yſg. o fewn.

Trefniad 8. Caffael yr Amgylchiad, i gael yſtlys yſgwâr fwyaf, a Gynhwyſir ynddo ef.

Os bydd yr Amgylchiad yn 1, yſtlys yſgwâr a gynhwyſir o'i fewn a fydd .2251. Gan hynny,

71 Amgylchiad

2251
15757

15.9821 Yſtlys yſgwâr.

§ V. Am HANNER-GYLCH.

